Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | **GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE** |
| **DYDD IAU, 14 MAI 2026 am 2:00 y. p.** | **THURSDAY, 14 MAY 2026 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL AR ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Euryn Morris, Margaret M. Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Paul Ellis, Kenneth Hughes

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Dr Geraint Jones, William Maund, William Parry

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

1 **ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

***Dygir sylw Aelodau at baragraff 3.4.8.2.2 yng Nghyfansoddiad y Cyngor sy'n dweud "Mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-Gadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith na'n gynorthwy-ydd i'r Pwyllgor Gwaith."***

2 **ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

Ethol Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

4 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2026.

5 **LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

6 **ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 13 - 24)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 **MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SY'N WEDDILL** (Tudalennau 33 - 44)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

9 **ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - CYNLLUN ARCHWILIO 2026** (Tudalennau 45 - 70)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**10** **ARCHWILIO ALLANOL: CYNGOR SIR YNYS MÔN - RHEOLI PERFFORMIAD AILGYLCHU** (Tudalennau 71 - 88)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**11** **ADRODDIAD YSWIRIANT BLYNYDDOL 2025/26** (Tudalennau 89 - 100)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**12** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27** (Tudalennau 101 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Bydd cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor yn cael ei ddilyn gan gyfarfod preifat rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r archwilwyr.*

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 3 Chwefror, 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Kenneth Hughes, Gwilym O. Jones, Keith Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg: Dr Geraint Jones, William Maund. |
| **WRTH LAW:** | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 5),<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro Dros Dro (LL) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Perfformiad a Phrosiectau Strategol (GP) (ar gyfer eitem 9 a 10)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Cynorthwyydd Gweddarlledu (Gwasanaethau Democrataidd) (CH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Margaret M. Roberts, William Parry (Aelod Lleyg) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer), Carwyn Rees (Rheolwr Archwilio Perfformiad - Archwilio Cymru), Rachel Freitag (Rheolwr Archwilio Ariannol - Archwilio Cymru), Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio (CSYM) (ar gyfer eitemau 9 a 10), Prif Archwilydd (CSYM) (NW), Uwch Archwilydd (CSYM)(AM). |

---

### 1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2025, yn gywir, yn amodol ar newid geiriad y penderfyniad dan eitem 14, ac i ddileu'r cyfeiriad at ymataliad gan y Cynghorwyr Euryn Morris a Margaret M. Roberts:

**"Penderfynwyd nad oedd y pwyllgor yn gallu derbyn y casgliadau yn adroddiad Archwilio Cymru, ond nodwyd a derbyniwyd y bydd y Cyngor yn gweithredu'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion hynny."**

DRAFT

## 3. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor, i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau a gytunwyd.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg bod camau rhif 10, 20, 26, a 27 wedi cael eu cwblhau.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ar gynnydd datblygu canllawiau polisi ar gyfer defnydd y Cyngor o ddeallusrwydd artiffisial (DA) (gweithred rhif 24 ar y log), dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd ar y polisi drafft, y penderfynwyd rhannu'r ddogfen wreiddiol yn ddwy ddogfen bolisi ar wahân - un yn ymwneud â'r defnydd cyffredinol o DA (e.e. ymholiadau) a'r llall yn mynd i'r afael â'r defnydd o DA o fewn systemau a phrosesau ffurfiol y Cyngor. Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Rheolwr Llywodraethu wedi adolygu'r ddau bolisi, a bydd yn cael ei ystyried eto gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror.

**Penderfynwyd nodi'r camau gweithredu a oedd wedi'u nodi yn y log a chadarnhau bod y Pwyllgor yn hapus bod y camau wedi cael eu gweithredu'n foddhaol.**

## 4. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD - RHOI CYMERADWYAETH DERFYNOL I GYFRIFON BLYNYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn i'r pwyllgor roi ei farn ar y newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn hytrach na'r Cyngor ei hun.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro fod y datganiad llywodraethu blynyddol yn ffurfio rhan o gyfrifon blynyddol y Cyngor, ac mae'n cyflawni'r gofyniad i gyhoeddi datganiad ar reolaeth mewnol. Dywedodd fod y Cyngor wedi cymeradwyo newid y Cyfansoddiad er mwyn dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn gwella effeithlonrwydd a bodloni'r terfyn amser awdurdodi cynt sydd ar 30 Medi 2026.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell fod y Datganiad ar Reolaeth Mewnol, ac i'r Cyngor mae hynny'n golygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn cael ei gyhoeddi pan mae'r cyfrifon heb eu harchwilio yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog ariannol cyfrifol sy'n cwtogi'r amser sydd ar gael i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac i baratoi fersiwn ddiwygiedig, gywir a dwyieithog ar adeg pan mae pwysau i baratoi'r cyfrifon eisoes. Os bydd y gyfrifoldeb o gymeradwyo yn nwylo'r Cyngor, byddai'n rhaid symud y cyfarfod sydd wedi'i drefnu ar gyfer 9 Medi 2026, neu drefnu cyfarfod arbennig.

Mae dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn alinio amserlen y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyda'r cyfrifon blynyddol, sy'n darparu proses mwy effeithlon. Bydd yr adroddiad ar gael yn gyhoeddus yn y ffyrdd arferol, a phan fydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Mehefin, bydd copi yn cael ei gylchredeg i bob Aelod er mwyn cael sylwadau.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r newid arfaethedig i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.**



DRAFT

## 5. ADRODDIAD SICRWYDD LLYWODRAETHU GWYBODAETH BLYNYDDOL YSGOLION YNYS MÔN 2025

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'w ystyried, oedd yn rhoi sicrwydd blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar effeithiolrwydd llywodraethiant gwybodaeth a diogelwch data yn yr ysgolion hynny oedd yn cael eu cynnal gan y Cyngor yn ystod 2024/25. Roedd yr adroddiad yn crynhoi prif weithgareddau ac allbynnau, adnabod risgiau, mesurau lliniaru, blaenoriaethau yn y dyfodol a barn gyffredinol ar sicrwydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, yn ystod y cyfnod adrodd, fod rôl y Swyddog Diogelu Data mewn Ysgolion wedi'i llenwi ar sail dros dro (cyfartaledd o un diwrnod yr wythnos, ne fwy os yn ofynnol) oherwydd absenoldeb hirdymor y deilydd swydd arferol. Oherwydd y diffyg capasiti, mae gwaith wedi canolbwyntio ar ddyletswyddau statudol, digwyddiadau a materion risg uchel yn hytrach nag archwilio rhagweithiol neu weithgareddau datblygu. Y flaenoriaeth hyd yma yw gallu cynnal cydymffurfiaeth statudol, rheol risgiau a digwyddiadau byw, darparu cyngor cyson a chymorth i ysgolion a bod yn bwynt uwchgyfeirio a sicrwydd canolog.

Yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd, mae'r Swyddog Diogelu Data dros dro yn cynnig sicrwydd rhesymol fod gan ysgolion bolisïau a gweithdrefnau diogelu data priodol ar waith. Mae'r ffordd yr ymdrinnir â gwybodaeth o ddydd i ddydd yn gyffredinol gadarn, mae digwyddiadau a thoriadau'n cael eu hadnabod yn briodol ac mae llwybrau uwchraddio ar gyfer gwasanaethau corfforaethol a'r SIRO yn gweithio'n effeithiol.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc hefyd wedi amlygu'r risgiau strategol a gafodd eu hadnabod, gan gadarnhau eu bod yn cael eu cydnabod, eu rheoli'n briodol ac wedi eu huwchraddio lle bo angen. Er bod rheolyddion allweddol ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth barhaus, byddai'n ddefnyddiol eu cryfhau ymhellach. Mae'r materion sydd wedi'u hadnabod yn cyd-fynd ag adroddiadau blaenorol ac mae modd eu rheoli drwy ffocws parhaus a chaffael adnoddau priodol.

Wrth drafod yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion canlynol –

- Y cynllun hirdymor ar gyfer sicrhau capasiti o fewn rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.
- Mae natur gyffredinol yr adroddiad a'r diffyg data cadarn i dystio canlyniadau yn ei gwneud yn anodd mesur cynnydd neu welliannau.
- A yw rhoi barn o sicrwydd rhesymol, er y risgiau strategol sydd wedi'u hadnabod, yn awgrymu bod y trothwy ar gyfer sicrwydd rhesymol wedi ei osod yn rhy isel.
- Absenoldeb risgiau meintioledig a'r diffyg cyffredinol o fanyleb yn y wybodaeth a gyflwynwyd.
- Pryder nad yw cyflawni dim ond 20% o oriau rôl y Swyddog Diogelu Data Ysgolion dros dro yn ddigonol, gyda rhai aelodau'n teimlo fod cydymffurfiaeth statudol wedi'i gynnal yn fwy drwy lwc yn hytrach na goruchwyliaeth gadarn.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r pryderon a godwyd, gan gadarnhau fod Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn swydd barhaol o fewn strwythur y Cyngor. Y bwriad, wrth symud ymlaen, yw sefydlogi capasiti'r Swyddog Diogelu Data a chefnogi gweithgarwch sicrwydd mwy rhagweithiol, gan gynnig cefnogaeth ychwanegol lle bo angen. Mae'r diffyg data manwl yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r capasiti cyfyngedig yn ystod y cyfnod, a'r angen i flaenoriaethu gwaith statudol a risg uchel. Cytunodd i gynnwys y data y gofynnwyd amdano a mwy o fanylder yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Dywedodd fod y Swyddog Diogelu Data Ysgolion dros dro wedi paratoi'r adroddiad drafft ac wedi cynnig cymorth cyson i ysgolion, a bod modd ymddiried yn ei barn o sicrwydd

DRAFT

rhesymol. Mae'r adroddiad yn ceisio nodi'n glir beth sydd wedi'i ddarparu a'r mesurau sydd ar waith yn seiliedig ar y sylfaen sydd wedi'i sefydlu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion parhaol, cyn ei chyfnod o absenoldeb. Ymdrinnir â'r materion a nodwyd ar ôl y cyfarfod. Roedd hefyd yn cydnabod fod gweithred ychwanegol yn codi o'r drafodaeth i adolygu sut ellir gwella capasiti a chymorth ar gyfer ysgolion er mwyn troi at lefel mwy rhagweithiol o sicrwydd.

**Penderfynwyd fod y pwyllgor yn nodi'r sicrwydd a ddarparwyd yn adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion dros dro, yn amodol ar y ddealltwriaeth fod y sicrwydd yn ymwneud â chyfnod dros dro, ac y bydd cymorth ychwanegol yn cael ei darparu yn ystod y cyfnod hwn.**

## 6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn cynnwys y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r Datganiad yn amlinellu sut fydd y Cyngor yn rheoli benthyca, buddsoddiadau a llif arian yn y flwyddyn i ddod ac mae'n cefnogi Cynllun y Cyngor, y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Rhaid ei gyhoeddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chodau Darbodus a Rheoli Trysorlys CIPFA.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adra 151 drosolwg o'r adroddiad, gan amlinellu'r cyd-destun economaidd, sefyllfa bresennol y Cyngor o ran benthyca a'r strategaethau benthyca a buddsoddi arfaethedig. Cadarnhaodd y bydd benthyca allanol ond yn cael ei wneud pan fo angen, ac y bydd yn osgoi benthyca cyn bod angen gwneud hynny. Bydd aildrefnu dyled ond yn cael ei ystyried os bydd yn cynnig budd ariannol. Bydd benthyca mewnol yn cael ei ddefnyddio os bydd balansau ariannol yn caniatáu hynny, gan fod hyn yn gostwng costau llog. Fodd bynnag, disgwylir y bydd benthyca allanol yn cynyddu wrth i arian wrth gefn ostwng.

Dywedodd fod y Strategaeth Gyfalaf yn amlinellu tair sefyllfa - sylfaenol, uchelgeisiol a delfrydol, gyda phob un yn cynyddu angen y Cyngor i fenthyca. Mae tablau 7a a 7b yn dangos y goblygiadau refeniw ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai dan bob sefyllfa. Mae modd rheoli'r effaith refeniw dan y sefyllfa Sylfaenol, ond mae'n cynyddu dan y sefyllfaoedd Uchelgeisiol a Delfrydol.

O ran buddsoddiadau, mae blaenoriaethau'r Cyngor yn parhau i ymwneud â diogelwch, hylifedd ac arenillion. Bydd y Cyngor ond yn buddsoddi gyda sefydliadau risg isel, achrededig, gyda chyfraddau credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Mae archwaeth y Cyngor am risg yn parhau'n isel.

Mae'r dangosyddion Darbodus a Thrysorlys yn Atodiad 11 yr adroddiad yn sicrhau bod gweithgareddau rheoli trysorlys a chynlluniau buddsoddi cyfalaf y Cyngor dal yn fforddiadwy a gofalus.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 fela a ganlyn mewn ymateb i gwestiynau gan y pwyllgor -

- Gall ad-dalu rhai benthyciadau presennol yn fuan arwain at ffioedd llog uwch a gostyngiad mewn costau refeniw. Fodd bynnag, mae sawl benthyciad PWLB yn cynnwys dirwyon ad-dalu cynnar a all fynd y tu hwnt i arbedion posibl wrth ail-gyllido i gyfradd llog is. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro a'i hadolygu.
- Mae'r adroddiadau rheoli trysorlys chwarterol a'r adolygiad canol blwyddyn yn monitro perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosyddion darbodus a thrysorlys, sy'n gosod cyfyngiadau ar lefel benthyca a dyled y Cyngor.

- Mae'r contract gydag ymgynghorwyr rheoli trysorlys y Cyngor yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 a bydd hyn yn cael ei adolygu, yn cynnwys y manyleb ar gyfer hyfforddiant aelodau ar reoli trysorlys neu, a ellir darparu'r hyfforddiant yn fewnol.
- Mae'r gyllideb isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar raglen gyfalaf y flwyddyn flaenorol ac yn adlewyrchu gwariant cyfalaf 2025/26 a'r lefel benthyca a gadwyd ar yr adeg honno. Codir isafswm darpariaeth refeniw pan mae prosiect yn cael ei gwblhau. Mae'r gyllideb hefyd yn ystyried y newid disgwyliedig o fenthyca mewnol i fenthyca allanol, sy'n effeithio ar gostau llog. Mae'r gostyngiad mewn balansau arian parod sydd ar gael ar gyfer buddsoddi hefyd yn cael ei adlewyrchu oherwydd bydd yn incwm buddsoddi is.
- Mae'r gwariant cyfalaf sylfaenol ar gyfer 2026/27 yn cynnwys ymrwymiadau ar gyfer datblygiadau tai newydd drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, cyfleuster gofal ychwanegol newydd drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, prosiectau cronfa'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac unedau busnes a ariennir drwy grant. Unwaith fydd yr ymrwymiadau hynny wedi dod i ben, mae gwariant cyfalaf y sefyllfa sylfaenol yn gostwng i ymrwymiadau parhaus. Mae'r strategaeth yn gweithredu ar sail pum mlynedd, ac yn cael ei ddiweddaru wrth i brosiectau newydd gael eu cymeradwyo a phan fydd cyllid ar gael.
- Fel arfer, mae benthyciadau PWLB yn rhatach na benthyca masnachol, yn haws i gynghorau gael mynediad atynt ac yn darparu ffynhonnell ariannu ddiogel. Mae cyfradd disgownt ar gael ar gyfer benthyca y Cyfrif Refeniw Tai.

**Penderfynwyd nodi'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylwadau pellach.**

## 7. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys diweddariad fel ag yr oedd ar 21 Ionawr 2026 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 21 Tachwedd 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen. Cafodd aelodau'r pwyllgor gopi o'r adroddiad sicrwydd, dan glawr ar wahân, a gafodd ei gwblhau yn y cyfnod yn ymwneud â rheoli Canolfannau Data yn ffisegol ac amgylcheddol (Sicrwydd Rhesymol).

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad, a chrynhoi canlyniad yr adolygiad archwilio a gwblhawyd yn y cyfnod, gan nodi ei fod yn gadarnhaol. Arbenigwyr archwilio TG allanol o Gyngor Dinas Salford gwblhaodd yr archwiliad, ac fe godwyd pump argymhelliad. Fodd bynnag, wrth eu hasesu yn erbyn matrics rheoli risg y Cyngor, dim ond un a gafodd ei sgorio fel cymedrol oedd angen sylw rheolwyr, gyda'r gweddill yn cael eu hadnabod fel mân risgiau (gwyrdd) ac yn cael eu hadrodd i'r gwasanaeth am gyngor yn unig. Cyfeiriodd at y cyfraddau sicrwydd a'u diffiniadau, ac egluro fod yr archwilydd yn defnyddio barn broffesiynol wrth wneud barn briodol. Mae hyn yn cynnwys lefel y risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt a'r effaith bosibl ar y sefydliad ar y cyfan. Y prif ffactor wrth ddod i benderfyniad yw'r ymateb i'r prif gwestiwn.

Mewn ymateb i ymholiad gan y pwyllgor am y sgoriau, y patrymau lliw a gradd barn yr archwilydd a'r goddrycholdeb ynghlwm, cadarnhaodd bod proses asesu ansawdd ar waith, lle mae canfyddiadau'r archwilydd yn cael eu hadolygu gan y Prif Archwilydd, ac yna'n cael eu cymeradwyo gan y Pennaeth Archwilio a Risg drwy broses tri cham. Mae cyfraddau a diffiniadau sicrwydd y Cyngor yn cyd-fynd â'r rheiny sy'n cael eu cynnig gan Grŵp Diddordeb Arbennig Archwilio Mewnol CIPFA.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynghylch pam fod archwiliad Rheoli Asedau TG - Archwilio TG wedi ei ohirio dan 2026/27 ar gais y Prif Swyddog Digidol, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr oedi oherwydd capasiti a phwysau llwyth gwaith o fewn tîm y



DRAFT

gwasanaeth TGCh, yn cynnwys sawl camau a phrosiectau blaenoriaeth. Cadarnhaodd y bydd yr archwiliad yn cael ei ymgorffori yng nghynllun archwilio 2026/27, ac nad oedd ei gynhwysiant gwreiddiol wedi ei annog gan unrhyw bryderon penodol ac nad oedd unrhyw risgiau wrth oedi'r archwiliad.

**Penderfynwyd nodi canlyniad y gwaith Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'r blaenoriaethu wrth symud ymlaen.**

## 8. DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Strategol ddiwygiedig, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr yn 2025, i'r pwyllgor ei ystyried.

Darparodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad ar y gwaith a wnaed hyd yma, gan nodi fod Zurich Risk Solutions yn cefnogi'r Cyngor gydag adolygiad cyflawn o'i ddulliau i reoli risg a hynny drwy gontract yswiriant y Cyngor gyda Zurich Municipal. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygiad o'r gofrestr risg strategol sydd wedi gostwng o 16 i 11 risg. Mae'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth), sydd bellach yn gyfrifol am gynnal y gofrestr risg strategol, yn parhau i weithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth ar y gofrestr ddiwygiedig. Mae'r gwaith hwn yn cyd-redeg ag archwaeth risg y Cyngor. Bydd y gofrestr risgiau strategol gyflawn yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor unwaith y bydd y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y gofrestr risg strategol yn cael ei diweddaru'n barhaus. Mewn ymateb i gwestiwn am pa mor gyffredin yw hi i addasu'r tebygolrwydd a'r effaith wrth symud o risg sydd wedi ei hetifeddu i risg weddilliol, dywedodd er bod tebygolrwydd yn newid yn aml oherwydd rheolyddion, gall effaith hefyd newid mewn rhai amgylchiadau, lle gall rheolyddion effeithiol leihau difrifolwch y canlyniad. Cyfeiriodd at YM1 mewn perthynas â chyllid a rheolaeth ariannol, gan nodi pe byddai risg y byddai cyllid yn lleihau, neu ddim yn ddigonol, ar gyfer darparu gwasanaethau statudol, byddai arferiad y Cyngor i gadw 5% o'r gyllideb flynyddol fel arian wrth gefn yn lleihau'r effaith drwy alluogi gwasanaethau i barhau am gyfnod hirach.

**Penderfynwyd nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma fel rhan o'r adolygiad cyflawn o'r gofrestr risg strategol.**

## 9. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN ERBYN YR HUNANASESIAD A ADNABYDDIR A CHAMAU GWELLA DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio i'w ystyried gan y pwyllgor, oedd yn darparu diweddariad ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor yn erbyn y meysydd gwella a adnabyddir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r adroddiadau Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) ar gyfer 2024/25.

Darparodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau ddiweddariad i'r pwyllgor ar gynnydd y chwe gweithred gwella a adnabyddir, gan amlygu lle roedd cynnydd yn cael ei amserlennu ac egluro'r rhesymau dros yr oedi. Mewn ymateb i ymholiad am statws cam gwella 2 (gweithredu'r camau sy'n weddill y cytunwyd arnynt o'r Cynllun Gwella Caffael), eglurodd mai dyma'r diweddariad cyntaf ar y camau sydd wedi'u rhestru. Mae cynllun gwella ar waith er mwyn bodloni gofynion Deddf Caffael 2023. Er bod materion adnoddau wedi effeithio ar ddarparu'r cynllun hyd yma, mae Rheolwr Caffael parhaus bellach wedi ei benodi a disgwylir y bydd yn cefnogi'r gwaith o weithredu a helpu i ddod â chamau yn ôl o fewn yr amserlen.

Dywedodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau fod y camau mewn Gwyrdd dal yn gyfredol, ond disgwylir y byddant yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen a nodwyd, gyda

DRAFT

chamau ar waith i sicrhau darpariaeth. Ar gyfer y camau hynny sydd yn rhedeg ar ei ôl hi, cadarnhaodd y byddant yn cael eu monitro drwy fonitro'r cynllun cyflawni blynyddol a'r cynlluniau darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd na allai ddarparu sicrwydd absoliwt y bydd y camau hyn wedi'u cwblhau ar amser, oherwydd eu statws presennol.

**Penderfynwyd derbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o waith y Cyngor yn erbyn y meysydd gwella sydd wedi'u hadnabod.**

## 10. ARCHWILIO ALLANOL: CRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL 2025

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio i'w ystyried gan y pwyllgor, oedd yn ymgorffori Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn 2025. Roedd y grynodeb yn amlinellu'r prif ganfyddiadau o waith archwilio cyllid a pherfformiad 2024/2025 a wnaed yn y cyngor i gyflawni cyfrifoldebau Archwilio Cymru dan Ddeddf Archwilio (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth adolygu'r crynodeb archwilio, trafodwyd y materion canlynol gan y pwyllgor -

Wrth adolygu'r crynodeb archwilio, trafodwyd y materion canlynol gan y pwyllgor -

- Y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod Archwilio Cymru yn cyflawni gwerth am arian.
- Prydlondeb gwaith Archwilio Cymru, gan nodi mai ei gyfartaledd i gwblhau ei waith archwilio perfformiad oedd 78% yn y tair blynedd rhwng 2022 a 2024.
- Y ffordd y cyflwynir yr adroddiad crynhoi, gyda chais bod cynnwys graffeg gweledol yn cael ei ail ystyried.
- Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r camfynegiant na chafodd ei gywiro o archwilio cyfrifon y Cyngor yn 2024/25.

Mewn ymateb, eglurodd Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru fod Bwrdd Archwilio Cymru yn edrych ar a yw Archwilio Cymru yn gwneud defnydd effeithlon o'i adnoddau. Mae ffioedd Archwilio Cymru yn cael eu meincnodi yn erbyn asiantaethau archwilio sector cyhoeddus y DU. Cyfeiriodd at adroddiad gan Brifysgol Sheffield o fis Awst 2025, oedd yn nodi bod costau archwilio yn Lloegr wedi codi'n sylweddol, yn fwy na chostau yng Nghymru yn ystod y dair blynedd ddiwethaf. Nododd hefyd fod ffioedd Archwilio Cymru yn cael eu craffu yn flynyddol gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y Rheolwr Archwilio Perfformiad yn cydnabod fod problemau wedi bod gyda'r amserlen. Yn dilyn y pandemig, cafodd sefydliadau amser a llonydd i ganolbwyntio ar ddarpariaeth rheng flaen ac roedd capasiti dan straen o fewn sefydliadau ac o fewn Archwilio Cymru. Mae amserlenni wedi gwella ers hynny, ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu'n genedlaethol. Cadarnhaodd y byddai'n adrodd yn ôl y cais ynghylch dull cyflwyno'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Cyllid fod dull wedi ei gytuno ar gyfer cywiro'r camfynegiant na chafodd ei gywiro o archwiliad ar gyfrifon y Cyngor 2024/25, a'i bod yn deall y ffigyrau diwygiedig fyddai'n cael eu cynnwys yng nghyfrifon drafft 2025/26.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a nodi hefyd fod y pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'i gynnwys.**

## 11. ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg, oedd yn cynnwys y blaen raglen waith ar gyfer 2025/26 a oedd wedi'i diwygio i adlewyrchu'r newidiadau mwyaf diweddar, i'w ystyried gan y pwyllgor.

DRAFT

Awgrymodd y Pennaeth Archwilio a Risg ac fe gytunwyd, y byddai diweddariad ar amserlen a rhaglen Ch3 Archwilio Cymru yn cael ei gylchredeg yn uniongyrchol i aelodau'r pwyllgor unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gan nad yw'r cyfarfod nesaf wedi ei drefnu tan fis Mai. Yn ychwanegol, cadarnhaodd fod adroddiad yr Asesiad Panel Perfformiad wedi'i aildrefnu i'w ystyried yn y cyfarfod ym mis Mai.

Gwahoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg unrhyw geisiadau am hyfforddiant, ac mewn ymateb gwnaed gais am hyfforddiant gloywi ar gyfrifon blynyddol y Cyngor.

**Penderfynwyd cadarnhau bod y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26 yn cwrdd â chyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc:** | Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm Dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

## 2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

## Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | 08/05/25 | 9 | Y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 i godi'r mater o ganllawiau polisi ar ddefnydd Deallusrwydd Artiffisial o fewn y Cyngor gyda'r Tîm Arweinyddiaeth. | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | Mae polisi wedi'i ddrafftio, a'i ddiweddaru'n ddiweddar yn dilyn sylwadau a wnaed gan y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ystyried ac yn mabwysiadu pryd y gallent ddyrannu slot. | Ar y gweill. |
| | 26/06/25 | 4 | | | DIWEDDARIAD: Ystyriodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi drafft yn ei gyfarfod ar 17/06/25 ac wedi gofyn iddo gael ei adolygu ymhellach. | |
| | 03/02/26 | 3 | | | DIWEDDARIAD: Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd ar y polisi drafft, ei bod wedi penderfynu rhannu'r ddogfen wreiddiol yn ddau bolisi ar wahân - un sy'n cwmpasu defnydd cyffredinol o DA (e.e. ar gyfer ymholiadau) ac un arall sy'n mynd i'r afael â'r defnydd o DA o fewn systemau a phrosesau ffurfiol y cyngor. Mae'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth wedi adolygu'r ddau bolisi, a fydd yn cael eu hystyried eto gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2026. | |
| | 14/05/26 | | | | DIWEDDARIAD: Derbyniodd y Tîm Arweinyddiaeth y polisi DA ar 15/04/26 yn amodol ar fân ddiwygiadau. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth derfynol, mae trefniadau wedi'u gwneud i'r polisi gael ei lansio trwy borth polisi'r cyngor, lle mae'n ofynnol i staff ddarllen a derbyn polisïau gorfodol. Bydd y Tîm TG yn lansio ynghyd â chanllawiau ar ddefnyddio DA. | |

| Rhif | Dyddiad y Cyfarfod | Rhif yr Eitem | Gweithred | Perchennog y Weithred | Camau a Gymerwyd | Statws |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | 30/09/25 | 5 | Y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd i ddod â'r cynllun strategol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol tair blynedd wedi'i gwblhau, sy'n ymgorffori camau gweithredu SMART, i gyfarfod y pwyllgor yn y dyfodol. | Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd | Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. | |
| 33 | 04/12/25 | 8 | Cytunodd y pwyllgor bod adroddiad a chynllun gweithredu Diogelwch TGCh Ysgolion Uwchradd (Sicrwydd Cyfyngedig) yn cael eu hystyried yn fanwl yng nghyfarfod Gorffennaf 2026 yn dilyn adolygiad cynnydd yr Archwilio Mewnol a gofynnodd i Brif Swyddog Digidol y Cyngor fynychu. | Pennaeth Archwilio a Risg / Prif Swyddog Digidol | Bwriad i gyflwyno i gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc:** | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad yn nodi canlyniad yr adolygiad blynyddol o Gylch Gorchwyl y pwyllgor, ac mae'n amlygu bod angen diwygio'r amodau ar gyfer penodi aelodau lleyg. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ei gylch gorchwyl yn flynyddol, i sicrhau ei fod yn dal i gydymffurfio â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol.

1.2. Ar hyn o bryd mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn nodi (3.4.8.2.2.):

> ***"Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor ar y mwyaf."***

1.3. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi bod rhaid penodi aelodau lleyg ar Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r canllawiau statudol sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi:[1]

> ***"Argymhellir na ddylid penodi aelod lleyg ar gyfer mwy na dau dymor llawn awdurdod lleol."***

1.4. Nid yw'r naill na'r llall yn mynd i'r afael â phenodiadau canol tymor h.y. aelodau lleyg a benodir yng nghanol tymor y cyngor, ac mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cysoni penodiadau â thymor y cyngor.

[1] Mae Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi diwygio Adran 82 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ynglyn ag aelodaeth.

1.5. Yn ogystal â'r prif oblygiadau statudol, h.y. na ddylid penodi aelod lleyg am fwy na dau dymor llawn awdurdod lleol, mae'r canllawiau statudol yn argymell ystyried y canllawiau manwl ar weithredu pwyllgorau llywodraethu ac archwilio a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

1.6. Yn ei ganllawiau mae CIPFA yn argymell penodi aelodau cyfetholedig i wella dealltwriaeth a phrofiad cynrychiolwyr etholedig ynglŷn â meysydd penodol, megis adroddiadau archwilio neu gyllid, **er mwyn sicrhau cysondeb y tu allan i'r cylch gwleidyddol**. Mae hyn yn hynod bwysig pan fo aelodaeth pwyllgorau'n newid yn flynyddol neu yn sgil etholiadau.

1.7. Felly, er mwyn cadw at yr egwyddor o gyfyngu tymor aelodau lleyg i ddau dymor pum mlynedd a sicrhau cysondeb y tu allan i'r cylch gwleidyddol, argymhellir bod y cyfeiriad at sicrhau bod y tymor penodi'n cyd-fynd â thymor y cyngor yn cael ei ddileu o gylch gorchwyl y pwyllgor.

1.8. O ganlyniad byddai aelodau lleyg yn cael eu penodi am ddau dymor pum mlynedd yn ddilynol, er gwaethaf cylch etholiadol y cyngor.

1.9. Mae'r manteision yn cynnwys sicrhau 10 mlynedd o wasanaeth di-dor, gwella cysondeb a lleihau'r baich recriwtio, a chysoni'r trefniadau â'r trefniadau ehangach sy'n bodoli o fewn y cyngor ar gyfer penodi i rolau annibynnol.

1.10. Mae'r anfanteision yn cynnwys yr angen i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor, a thymhorau amrywiol na fydd, o reidrwydd, yn cyd-fynd â'r cylch etholiadau na rhaglen hyfforddi a chynefino'r pwyllgor.

1.11. Isod, gweler y Cylch Gorchwyl diwygiedig, gyda newidiadau wedi'u holrhain er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hwylus.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cefnogi diwygio ei gylch gorchwyl i ddileu'r cyswllt rhwng tymor y cyngor a chyfnod penodi'r aelodau lleyg.

## 3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Datganiad o bwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu.

3.4.8.1.3 Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith ar gyfer herio mewnol ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol. Mae hefyd yn derbyn ac yn cyflwyno sylwadau ar yr adroddiad hunanasesu a pherfformiad (llesiant) blynyddol drafft ac adroddiadau panel asesu perfformiad.

3.4.8.1.4 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y Cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

### 3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y Pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; wyth aelod etholedig a phedwar aelodau lleyg, fydd yn cael eu recriwtio trwy ymarfer recriwtio cyhoeddus. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'n rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith na'n gynorthwyydd i'r Pwyllgor Gwaith. ~~Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor ar y mwyaf.~~ Mae'r aelodau lleyg yn cael eu penodi'n awtomatig am gyfnod o ddau dymor pum mlynedd yn olynol. Mae Cod Ymddygiad y Cyngor yn berthnasol i'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau

etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar gadeirydd ac is-gadeirydd y Pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Mae disgwyl iddynt ddarparu atebion gonest, agored a chyflawn i gwestiynau a godir gan y Pwyllgor. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, os rhoddir y nifer gofynnol o ddyddiau o rybudd, a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda’r archwilwyr mewnol ac allanol, o leiaf unwaith y flwyddyn, ac ni fydd swyddogion yn bresennol. Nid oes angen agenda ac nid oes angen hysbysu’r Cadeirydd ymlaen llaw am unrhyw faterion fydd yn cael eu codi.

3.4.8.2.7 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor, trwy’r Cadeirydd fel arfer.

3.4.8.2.8 Gall y pwyllgor ofyn am waith ychwanegol gan yr archwilwyr allanol a mewnol ond yr archwilwyr fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

3.4.8.2.9 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor hawl i ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.10 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r Pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

### 3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd

3.4.8.3.1 Bydd y Pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig, a bydd yn cynnwys casgliad ynglŷn â chydymffurfio â Datganiad Sefyllfa y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio a chynlluniau hyfforddi, a bydd yn sail i adroddiad blynyddol y Pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r Pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy'n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon. Y Pwyllgor fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddilyn cyngor Swyddog Monitro'r Cyngor.

**3.4.8.4 Adrodd ar Lywodraethu**

3.4.8.4.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bydd yn ystyried p'un yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol yn briodol, gan gynnwys barn flynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu p'un a yw'r arfarniad blynyddol ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn casglu'n deg bod y trefniadau llywodraethu yn addas i bwrpas, a'u bod yn cynorthwyo i gyflawni amcanion yr awdurdod.

3.4.8.4.3 Bydd y Pwyllgor yn cynorthwyo'r Cyngor i roi gwerthoedd llywodraethu moesegol ar waith. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd a darparu adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, ymddwyn ag uniondeb, a chydymffurfiaeth gyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.4
Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad hunanasesu a pherfformiad (llesiant) blynyddol drafft ac, os yw'n briodol, argymell newidiadau i'r adroddiad. Mae'r weithdrefn ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'i amlinellu ym mharagraff 3.4.8.15

**3.4.8.5 Rheoli Trysorlys**

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y Pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

**3.4.8.6 Gwerth am arian**

3.4.8.6.1 Bydd y Pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian.

3.4.8.6.3 Bydd y Pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y Pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol.

3.4.8.7.2 Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd a bod dyblygu yn cael ei osgoi.

3.4.8.7.3 Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol a dderbynnir gan y Pwyllgor yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:

- Iechyd a Diogelwch Corfforaethol
- Seiberddiogelwch
- Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth
- Llywodraethu Gwybodaeth mewn Ysgolion
- Yswiriant

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu, asesu ac adrodd ar ddatblygu a rhoi trefniadau rheoli risg effeithiol ar waith yn y Cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u rhoi ar waith.

- Goruchwylio’r modd y caiff rheoli risg ei ymgorffori ym mhrosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu ac arwain y gwaith rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd.
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a risgiau prosiect mawr.
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth.
- Ceisio sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hymgorffori yn y broses rheoli risg.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu arferion da yn y maes rheoli risg, a’u hymgorffori, trwy oruchwylio unrhyw arfarniad neu werthusiad o drefniadau’r Cyngor, megis asesiad o aeddfedrwydd risgiau neu feincnodi risgiau, ac adolygu adroddiadau arfarnu, sicrwydd ac archwilio mewn perthynas â rheoli risgiau a monitro cynnydd cynlluniau gwella.

3.4.8.8.2 Bydd sicrwydd ynghylch rheoli risgiau yn elfen allweddol sy’n sail i’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.8.3 Pan fydd y Pwyllgor yn gweithredu fel pwyllgor risgiau bydd yn:

- Adolygu’r gofrestr risgiau strategol, gan geisio sicrwydd bod rheolwyr, mewn modd priodol, yn perchnogi ac yn rheoli risgiau’n effeithiol.
- Ystyried digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i gasglu ac asesu risgiau strategol.
- Arfarnu p’un a yw camau lliniaru a gynlluniwyd yn briodol ac yn effeithiol, gan wneud argymhellion i’r perchennog risg cyfrifol lle bo hynny’n briodol.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y Cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd gan y Pwyllgor drosolwg o drefniadau’r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau twyll a llygredd, gan ddarparu sicrwydd eu bod yn addas i bwrpas a bydd yn hyrwyddo arfer atal twyll ac atal llygredd da yn y sefydliad ehangach.

3.4.8.9.3 Bydd y Pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni’r arferion a argymhellir, y safonau llywodraethu a’r ddeddfwriaeth.

3.4.8.9.4 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r Cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.5 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

3.4.8.9.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarparwyd gan archwilio mewnol.

**3.4.8.10 Archwilio mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor.

3.4.8.10.2 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol. Bydd y Pwyllgor yn bodloni ei hun bod y Siarter yn cydymffurfio â'r safonau archwilio perthnasol.

3.4.8.10.3 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.5 Bydd y Pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol gyda rheolwyr a'r Pennaeth Archwilio a Risg i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau. Pan fo pryderon ynghylch gallu'r gwasanaeth archwilio mewnol i gyflawni ei fandad neu i gyflawni casgliad blynyddol, caiff pryderon eu cofnodi'n ffurfiol a'u hadrodd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'u cyfeirio i'w cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Archwilio a Risg ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad gwasanaethau archwilio mewnol sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr allanol.

3.4.8.10.7 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio a Risg a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.8 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â safonau archwilio mewnol perthnasol a chanlyniadau'r Rhaglen

Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau’r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.9 Bydd y Pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.10 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae’r Pennaeth Archwilio a Risg wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod, neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.12 Bydd y Pwyllgor yn ystyried, cymeradwyo, ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw gamau diogelu a roddir ar waith i gyfyngu ar unrhyw beth sy’n amharu ar annibyniaeth a gwrthrychedd y Pennaeth Archwilio a Risg sy’n deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol y Pennaeth Archwilio a Risg tu allan i’r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.13 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn derbyn adroddiad ar opsiynau, amseriad, cwmpas, dull asesu a chymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd, i'w gymeradwyo.

3.4.8.10.14 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.15 Bydd y Pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y Pennaeth Archwilio a Risg, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor, o leiaf yn flynyddol.

### 3.4.8.11 Archwilio allanol

3.4.8.11.1 Bydd y Pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwilio allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol eraill a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*.

3.4.8.11.3 Bydd y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi

gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y Pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilio allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwilydd allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

### 3.4.8.12 Adroddiadau ariannol

3.4.8.12.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y Cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro'r trefniadau a'r paratoadau ar gyfer darparu adroddiadau ariannol er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion statudol a safonau proffesiynol.

3.4.8.12.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu a gadarnhau datganiadau ariannol y Cyngor, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.4 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon a ph'un a oes angen eu dwyn i sylw'r Cyngor ai peidio.

3.4.8.12.5 Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys cydymffurfio â Chod Rheoli Ariannol CIPFA.

### 3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill

3.4.8.13.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

### 3.4.8.14 Delio â Chwynion

3.4.8.14.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol. I'r perwyl hwn, bydd yn derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru .

3.4.8.14.2 Bydd y Pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

### 3.4.8.15 Adroddiad Hunanasesu

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn drafft o'i adroddiad hunanasesu a pherfformiad (llesiant) blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu prif gynghorau)].

3.4.8.15.2 Bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo'n derfynol.

3.4.8.15.3 Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd/neu'r camau y mae eisoes wedi'u cymryd er mwyn gwella i ba raddau y bydd y Cyngor yn cwrdd â'i ofynion perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith gyda rhesymau pam nad yw'r newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael eu gwneud.

3.4.8.15.5 Bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad terfynol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith cyn pen pedair wythnos o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor Gwaith pan fabwysiadwyd yr adroddiad.

### 3.4.8.16 Asesiad Perfformiad Panel

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r Cyngor. Gall y Cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

3.4.8.16.2 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Y Pwyllgor Gwaith sy'n gyfrifol am hyn ar ran y Cyngor.

3.4.8.16.3 Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w Bwyllgor llywodraethu ac Archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r Pwyllgor Gwaith yn gwneud newid a argymhellwyd gan y Pwyllgor llywodraethu ac Archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pam na wnaethpwyd y newid ganddo.

### 3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol

3.4.8.17.1 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion

perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.2 Pe bai gofyn i'r Cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.17.1 uchod, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r Pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.3 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad yw'r Cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)

Mae gofyn i'r pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU.

Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwylio archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 28 Ebrill 2026, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 21 Ionawr 2026, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:
- canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd a'n
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

**Mai 2026**




**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Pennaeth Archwilio a Risg**



# Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ___ 1
Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys ___ 2
Systemau Ariannol - y Gyflogres ___ 2
Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) - Adolygiad Cyntaf ___ 3
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Ail Adolygiad Dilynol ___ 3
Rheolaeth Ariannol ___ 4
Gwaith ar y Gweill ___ 4
Camau Gweithredu sy'n Weddill ___ 5
Blaenoriaethau ___ 5
Blaenoriaethau yn y Tymor Byr/Canolig ___ 5
Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy ___ 5



# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Chwefror 2025, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau/cyfleoedd a godwyd.

Rydym wedi cwblhau **pum** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys | **Sylweddol** | 0 | 0 | 1 |
| Systemau Ariannol - y Gyflogres | **Rhesymol** | 0 | 0 | 5 |
| Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) - Adolygiad Dilynol Cyntaf | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Ail Adolygiad Dilynol | **Cyfyngedig** | 0 | 0 | 3 |
| Rheolaeth Ariannol | **Rhesymol** | 0 | 0 | 3 |

## Systemau Ariannol - Rheoli Trysorlys

| Sicrwydd Sylweddol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A oes gan y cyngor drefniadau Rheoli Trysorlys effeithiol ar waith i sicrhau bod ei lefelau benthyca yn ddarbodus a fforddiadwy, bod ganddo lif arian parod i gwrdd â gwariant dydd i ddydd yn rhwydd, a bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, gan sicrhau'r enillion ariannol gorau posib, yn unol â'r codau a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol?**

Daeth yr archwiliad i'r casgliad bod y  swyddogaeth Rheoli Trysorlys yn gweithredu yn unol â fframwaith rheoli gadarn ac yn cydymffurfio â chod ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Chod Darbodus CIPFA.  Mae'r trefniadau llywodraethu yn gadarn ac mae'r ffaith bod y cyngor yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd dros gynhyrchu incwm yn adlewyrchu ei ymagwedd ofalus tuag at risg.

Mae gweithgareddau buddsoddi a benthyca yn parhau i fod â risg isel, ac mae'r cyngor a dderbynnir gan ymgynghorydd trysorlys y cyngor yn cefnogi hyn. Mae'r contract ymgynghori wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd.   Mae cyllido cyfalaf yn dilyn egwyddorion darbodus, drwy grantiau, arian refeniw a benthyca drwy'r BBGC. Mae gwybodaeth trysorlys yn cael ei chadw ar nifer o wahanol systemau, ac mae'n briodol trosglwyddo gwybodaeth i daenlenni ond rhaid cael tystiolaeth glir sy'n dangos bod hynny wedi cael ei gymeradwyo.

Mae dyletswyddau'n cael eu rhannu'n effeithiol er bod y tîm yn fach. Mae cofnodion yn cael eu gwirio'n annibynnol ac mae gwahaniad clir rhwng rolau. Mae'r rôl Cyfrifydd Cyfalaf yn cael ei chyflawni gan un unigolyn ond drwy ailstrwythuro a gwella gweithdrefnau bydd modd lleihau'r ddibyniaeth ar yr unigolyn hwnnw.

At ei gilydd, mae'r adolygiad yn gadarnhaol, gydag un cam cymedrol a dau welliant blaenoriaeth isel, ond nid yw'r rhain yn effeithio ar y farn sicrwydd '**Sylweddol**'.

## Systemau Ariannol - y Gyflogres

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A oes gan y cyngor drefniadau Rheoli Trysorlys effeithiol ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu talu'n gywir ar yr adeg gywir, bod cofnodion ariannol ynglŷn â chyflogau, tâl a didyniadau yn gywir a bod prosesau'n gweithredu yn unol â'r gofynion deddfwriaethol perthnasol?**

Mae'r Gyflogres yn gweithredu'n effeithiol, ac mae staff yn cael eu talu'n gywir ac ar amser. Fodd bynnag, nid oes digon o wydnwch gan fod y swyddogaeth, fwy neu lai, yn llwyr ddibynnol ar Reolwr Cyflogres ac un uwch swyddog.  Drwy gynyddu capasiti, cadarnhau cyfrifoldebau a moderneiddio prosesau gellir sicrhau sefydlogrwydd tymor hir a lleihau'r risg gweithredol.

Mae ansawdd y data a fewnbynnir y tu hwnt i reolaeth y Tîm i raddau helaeth, ac mae ysgolion yn dal i ddefnyddio taflenni amser papur sy'n cynyddu'r risg o wallau ac yn cynyddu'r llwyth gwaith. Bwriedir symud i system electronig ym mis Ebrill 2026 ond dim ond y Rheolwr Cyflogres sy'n ymwneud â'r gwaith hwn.

Mae'r dogfennau'n hen ac nid oes gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer taliadau trydydd parti.  Trwy ddiweddaru dogfennau gellid sicrhau cysondeb a lleihau'r tebygolrwydd o wallau.

Mae prosesau'n bodoli ar gyfer adennill gordaliadau, ond nid yw'r Polisi Gordaliadau wedi cael ei gyhoeddi gan nad yw'r undebau addysg wedi ei gymeradwyo. Dylid rhoi blaenoriaeth i gymeradwyo'r polisi'n ffurfiol er mwyn lliniaru'r risgiau cyfreithiol ac ymarferol.

Er bod pum mater cymedrol wedi cael ei nodi, at ei gilydd mae'r canlyniadau'n bositif.  Yn sgil y sicrwydd a gafwyd yn dilyn yr archwiliad diweddar o systemau ariannol a gwaith archwilio parhaus, gallwn ddarparu lefel '**Resymol**' o sicrwydd.

## Rheoli Risg Strategol - Diogelu (YM10) - Adolygiad Cyntaf

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau' a godwyd yn ein hadroddiad 'Rheoli Risg Strategol - Diogelu YM10', a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024, oedd yn darparu Sicrwydd Rhesymol mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes?**

Mae'r gwasanaeth wedi gwneud cynnydd clir o ran cryfhau'r trefniadau'r diogelu trwy wella effeithiolrwydd y Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol. Mae gwelliannau allweddol yn cynnwys codi pryderon gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ynglŷn â'i drefniadau archwilio, penodi Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinydd Ymarfer newydd, creu rota ar gyfer y Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol ar gyfer cadeirio Cynadleddau Amddiffyn Plant ac Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, a diweddaru'r risgiau strategol i adlewyrchu'r pwysau ar y gweithlu.

Mae'r materion sy'n weddill yn parhau i dderbyn sylw. Mae cyfarfodydd goruchwylio a chyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd erbyn hyn, er bod salwch diweddar wedi effeithio ar allu'r tîm bach i gwrdd ag amserlenni statudol, ac nid yw'r Panel Rhiantu Corfforaethol bellach yn derbyn adroddiadau ffurfiol ynglŷn â pherfformiad Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol. Mae'r polisi goruchwylio a'r broses datrys anghydfodau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau cysondeb ar draws y Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

At ei gilydd, mae ein hadolygiad yn gadarnhaol. Mae'r ddau fater a godwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol wedi cael eu datrys, ac mae cynnydd yn cael ei wneud gyda'r pedwar mater sydd yn weddill. Mae'r gwasanaeth wedi dangos ei fod wedi ymdrechu'n galed i wella effeithiolrwydd y Swyddogion Diogelu ac Adolygu Annibynnol - un o'r rheolaethau allweddol ar gyfer y risg diogelu YM10 - ac mae'r lefel sicrwydd yn parhau i fod yn '**Rhesymol**'. Trwy barhau i fonitro'r camau gweithredu sydd yn weddill yn fewnol gallwn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

## Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Ail Adolygiad Dilynol

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd yn ein hadroddiad ar 'Weinyddu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024 ac a oedd yn darparu lefel Gyfyngedig o sicrwydd ynglŷn â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes?**

Mae'r cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran cryfhau ei drefniadau ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Fodd bynnag, araf iawn fu'r cynnydd gyda'r materion sy'n weddill o'r archwiliad gwreiddiol, ac mae'r prif wendidau'n dal i beri risg.

Mae adrodd ar berfformiad wedi gwella, a bydd data cyswllt cyntaf yn cael ei gynnwys yn y cerdyn sgorio yn 2026. Nid oes trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i ddilysu data Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn annibynnol. Mae rheolaethau wedi cael eu cryfhau drwy ehangu'r defnydd o'r system P2P, ac nid oes unrhyw daliadau dyblyg newydd wedi cael eu canfod, fodd bynnag mae taliad dyblyg hanesyddol yn parhau'n anghyflawn ac ni chafodd gweithdrefnau safonol eu dilyn wrth geisio ei adennill.

Mae gwendidau gweinyddol yn parhau. Mae'r gronfa ddata ganolog ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn dal i fod yn anghyflawn. Nid yw wedi cael ei gysoni â'r data ariannol ac mae hyn eisoes wedi achosi gwallau yn yr wybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae hyn yn peri risgiau'n gysylltiedig â phridiannau tir anghywir neu phridiannau tir nad oes modd eu gorfodi.

O'r pedwar mater sydd yn weddill, mae un wedi cael ei ddatrys ac mae'r tri mater risg cymedrol ar waith. Oherwydd y cynnydd araf ac oedi wrth gael gafael ar wybodaeth mae'r raddfa sicrwydd yn parhau i fod yn '**Gyfyngedig**'. Bwriedir cynnal adolygiad dilynol pellach ym mis Medi 2026 i gadarnhau bod y gwelliannau wedi cael eu gweithredu'n llawn a'u bod yn effeithiol.

## Rheolaeth Ariannol

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y cyngor ar gyfer rheoli cyllidebau, llunio rhagolygon ariannol a monitro perfformiad er mwyn cynorthwyo i reoli gostyngiad amser real mewn cyllid a sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?**

Mae trefniadau'r cyngor yn gweithredu'n effeithiol, ac mae llywodraethiant gadarn ac adroddiadau rheolaidd i gefnogi'r trefniadau hynny. Mae adroddiadau monitro cyllidebau chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arweinyddiaeth yn golygu bod amrywiadau'n cael eu dadansoddi mewn modd tryloyw, ac mae gwaith craffu annibynnol gan y Panel Sgriwtini Adnoddau yn helpu i sicrhau atebolrwydd. Mae'r cyngor wedi sicrhau tanwariant cyffredinol cyson yn y gyllideb refeniw, ond mae rhai cyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw, megis gofal cymdeithasol, yn parhau i fod â risg uchel.

Mae'r rolau a chyfrifoldebau ar gyfer dyrannu cyllidebau wedi cael eu diffinio'n glir, ac mae perfformiad ariannol wedi'i ymgorffori o fewn y fframwaith rheoli perfformiad ehangach. Ar lefel gwasanaeth, mae'r tîm cyfrifyddiaeth yn monitro cyllidebau'n rheolaidd, ac yn darparu cyngor a chymorth. Mae'r tîm hefyd yn goruchwylio cyllidebau risg uwch yn agos. Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd gan ddeiliaid cyllidebau mae cydweithio agos rhwng gwasanaethau a'r adran gyllid.

Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys darparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyllidebau ar gyfer swyddogion y mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt, cryfhau'r broses o dracio gweithredoedd cyfarfodydd y Panel Sgriwtini Adnoddau ac ystyried opsiynau i wella gwybodaeth monitro ariannol, megis dashfyrddau mwy hygyrch, i gefnogi staff heb gefndir cyllid.

At ein gilydd roedd yr adolygiad yn gadarnhaol ac rydym wedi darparu sicrwydd '**Rhesymol**'.

# Gwaith ar y Gweill

Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm dros yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ymchwiliad | Gwaith Maes |
| Archwiliad TG: Rheoli Asedau TG | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Wedi'i ohirio tan 2026-27 ar gais y Prif Swyddog Digidol |
| Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Gwaith Maes |
| Rheoli'r Risg Diogelu: Athrawon Llanw | Cofrestr Risgiau Strategol (STR0003) | Adroddiad drafft |
| Rhaglenni Addysg Gynnar a Grantiau Gofal Plant | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Gwaith Maes |
| Systemau Ariannol - Credydwyr | AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26 | Adroddiad drafft |
| Tystysgrifau Cronfa Ysgolion | AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26 | Adroddiad drafft |
| Rheolaeth Ariannol Mewn Ysgolion | AM Blaenoriaeth Strategol 2025-26 | Pennu Cwmpas |
| Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd | Y Gofrestr Risgiau Strategol (YM | Adroddiad drafft |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd, a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

Mae adroddiad cynhwysfawr ar yr holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' yn cael ei gyflwyno ar wahân i'r cyfarfod hwn yn unol â chais y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.



# Blaenoriaethau

## Blaenoriaethau yn y Tymor Byr/Canolig

Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26 wrthi'n cael ei chwblhau. Mae digon o waith wedi cael ei gwblhau i alluogi'r Pennaeth Archwilio i ddarparu barn archwilio flynyddol a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2026.

Mae'r gwaith ymgynghori yn parhau ar Strategaeth Archwilio Mewnol 2026-27, a fydd hefyd yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin 2026.

Mae gwaith yn parhau ar Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 a bydd Adroddiad Blynyddol Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-26 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2026 i adrodd ar gynnydd y strategaeth.

## Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy

Mae'r gwaith o weithredu gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU yn parhau.

Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi lansio Pecyn Cymorth Asesu Cydymffurfiaeth sy'n ymgorffori Nodyn Cymhwyso a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU ynghyd â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS).

Rydym hefyd wedi cwblhau dadansoddiad o'r bylchau pan ddaeth y Safonau i rym, ac fe wnaethom adrodd i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2025. Yn ystod 2026-27 byddwn yn cwblhau asesiad cydymffurfiaeth fel y gall y cyngor fod yn hyderus ein bod yn cydymffurfio â'r GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adrodd i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 | |
| **Pwnc:** | Materion, Risgiau a Chyfleoedd Archwilio Mewnol sy'n weddill | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Nanette Williams<br>Prif Archwilydd<br>NanetteWilliams@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gosod y dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i bwyllgor archwilio o fewn cyngor eu cyflawni, yn enwedig o ran goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod.<br><br>Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar y pwyllgor i fonitro'r gwaith o weithredu camau cytunedig (3.4.8.10.10). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws y materion, risgiau a chyfleoedd sy'n weddill y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr Archwiliad Mewnol.<br><br>Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd yn Sector Cyhoeddus y DU, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio sefydlu methodoleg i gadarnhau bod rheolwyr wedi gweithredu ar argymhellion archwiliadau mewnol neu gynlluniau gweithredu rheoli. Mae hyn yn cynnwys ymholi am gynnydd ar weithredu, cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, a diweddaru statws y gweithredoedd rheoli mewn system olrhain (Safon 15.2). Mae trefniadau dilynol presennol Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU. | | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro materion a risgiau sydd wedi cael eu hadnabod yn ystod gwaith archwilio drwy ei system olrhain camau, 4action.

1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun gwir o berfformiad cyfredol mewn perthynas â mynd i'r afael a chamau sy'n weddill, ac mae'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn aml gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i hadroddiadau sy'n cynnig diweddariad ar archwilio mewnol.

1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio wedi gofyn os oes modd derbyn adroddiad manwl ar wahân sy'n amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ddwywaith y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 21 Medi 2021, aeth y Pwyllgor blaenorol ati i ystyried a gwneud penderfyniad ynghylch y manylion y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad, er mwyn bodloni ei anghenion sicrwydd yn y maes hwn.

## 2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio yn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r 'Materion / Risgiau / Chyfleoedd' Archwilio Mewnol sy'n weddill, a phenderfynu a yw hyn yn foddhaol.

# Materion / Risgiau / Cyfleoedd sydd angen sylw

**Mawrth 2026**



**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS**

**Nanette Williams MSc CMIIA CIA**



# Cynnwys

Cyflwyniad ____ 1
Perfformiad Presennol ____ 2
Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw ____ 2
Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr ____ 3
Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws ____ 3
Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed) ____ 4
Graff 5 – Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Critigol' a 'Sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn ____ 5
Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sydd angen sylw ____ 6

# Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau a gymerwyd gan reolwyr i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol fel rhan o'i waith.

2. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r camau sydd angen sylw, a hynny ddwywaith y flwyddyn, yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill/Mai a mis Medi.


3. Mae'n ofynnol hefyd, o dan safon 15.2 o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang (GIAS), i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol "gadarnhau bod rheolwyr wedi rhoi argymhellion archwilwyr mewnol neu gynlluniau gweithredu rheolwyr ar waith, gan ddilyn methodoleg sefydledig, gan gynnwys holi am gynnydd y gweithredu, cynnal asesiadau dilynol ar sail risg a diweddaru statws gweithredoedd mewn system dracio."

4. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwilio Mewnol bellach yn gwneud argymhellion, ond yn hytrach mae'n adrodd ar 'Faterion' a 'Risgiau', ac, yn fwy diweddar, 'Cyfleoedd'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, nhw sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a nodwyd, ac rydym yn monitro'r camau a gymerwyd ganddynt.

5. Mae adroddiadau sy'n derbyn Sicrwydd 'Cyfyngedig', neu 'Dim' Sicrwydd yn destun adolygiad dilynol ffurfiol gan Archwilio Mewnol, ac mae adroddiad archwilio'n cael ei ddarparu sy'n cynnwys gradd sicrwydd. Rydym yn monitro'r holl faterion, risgiau a chyfleoedd eraill gan ddefnyddio system dracio gweithredoedd corfforaethol y Cyngor (4action).

6. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus er mwyn i ni gael ein diweddaru ar gynnydd yn brydlon gan reolwyr.

7. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action (isod), sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n hwyluso'r gwaith o fonitro ac adrodd ar yr wybodaeth hon.




# Perfformiad Presennol

8. Mae'r pum graff isod yn dangos y gweithredoedd sydd angen sylw o fewn y Cyngor ar 31 Mawrth 2026. Mae diweddariad statws manwl ar y 6 mater / risg /cyfle 'sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.


9. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'Coch' neu 'Gritigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion / risgiau / cyfleoedd' Coch neu 'Gritigol' angen sylw ar hyn o bryd.

## Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw




10. Ar 31 Mawrth 2026, roeddem yn cadw llygaid ar 78 o weithredoedd a oedd angen sylw. Roedd chwech o'r rhain yn 'sylweddol' (ambr) a 72 yn 'gymedrol' (melyn), fel y dengys uchod.


## Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr




11. Rydym yn monitro'r holl weithredoedd ac rydym yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn sylw. Ar hyn o bryd, mae tair gweithred yn 'hwyr' gan nad yw rheolwyr wedi cwblhau'r weithred erbyn y dyddiad a bennwyd, fel y gwelir yn y graff uchod.

12. Mae'r rhain yn gysylltiedig â 'materion/risgiau' 'cymedrol' a godwyd yn ystod archwiliad o brosesau Debyd Uniongyrchol. Rydym yn darparu diweddariad mwy manwl ar y gweithredoedd hyn yn ein hadroddiad dilynol ffurfiol ar y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaru'r Pennaeth Archwilio a Risg.

## Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws




13. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd angen sylw (heb ystyried y dyddiad a gytunwyd gyda rheolwyr i fynd i'r afael â hwy). Mae'r graff yn dangos fod rheolwyr bellach wedi rhoi sylw i 77% o'r camau a gytunwyd ac mae Archwilio Mewnol wedi dilysu 76% ohonynt. [1]

14. Mae'r 1% sydd heb gael eu dilysu'n ffurfiol eto'n gysylltiedig â gweithredoedd yn codi o ddau archwiliad: 'Rheoli Cyflenwyr TG' a 'Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd'.

[1]Mae Archwilio Mewnol yn gwirio'r holl weithredoedd sydd 'wedi cau' er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon fod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i'r afael â'r risg gwreiddiol a nodwyd.


15. Byddwn yn cynnal adolygiadau dilynol yn y meysydd hyn yn ystod chwarter cyntaf 2026-27 a byddwn yn gwirio bod rheolwyr wedi rhoi'r gweithredoedd hyn ar waith yn llwyddiannus yn ystod yr adolygiadau hyn.

16. Mae'r gweithredoedd sydd 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar lle nad yw'r gweithredoedd a nodwyd wedi cyrraedd eu dyddiad cwblhau disgwyliedig eto. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rheoli Perfformiad
- Diogelwch Ffisegol TG a Rheolaeth Amgylcheddol o Ganolfannau Data
- Systemau Ariannol: Rheoli Trysorlys
- Systemau Ariannol: Y Gyflogres
- Rheolaeth Ariannol: Monitro cyllidebau a llunio rhagolygon

17. Pan fydd y dyddiadau hyn yn agosáu, byddwn yn cysylltu â rheolwyr i ofyn am ddiweddariad er mwyn mesur cynnydd.

## Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed)





18. Yn wahanol i Graff 3, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 99% o'r gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed wedi derbyn sylw.

19. Mae Archwilio Mewnol wedi dilysu'r cyfan bron, ond fel y nodir uchod, mae'r gweithredoedd sydd heb gael eu dilysu'n ymwneud â'r archwiliadau 'Rheoli Cyflenwyr TG' a 'Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd'. Y gweithredoedd sydd 'ar y gweill' yw'r rhai sy'n hwyr, fel y manylir ym mharagraff 12 uchod.

20. Byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai camau, ond dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu cynnig rheswm dilys dros wneud hynny, e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy, gan fod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r 'mater/risg/cyfle'.

Tudalen 39

## Graff 5 – Materion / Risgiau / Cyfleoedd ‘Critigol’ a ‘Sylweddol’ sy’n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn




21. Fel y nodir uchod, nid yw’r 6 cam sy’n parhau i fod angen sylw ac sy’n ‘sylweddol’ o ran blaenoriaeth wedi cael eu cwblhau’n llawn eto, ac nid oes ‘materion / risgiau / cyfleoedd’ coch neu ‘gritigol’ angen sylw ar hyn o bryd.

22. Mae Graff 5 uchod yn dangos y flwyddyn ariannol pan godwyd y mater/risg ‘sylweddol’ gyntaf yn ystod ein gwaith archwilio.

23. Nid oes unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd ‘sylweddol’ yn dyddio’n ôl ymhellach na 2024/25. Dengys hyn fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i’r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth uwch.

24. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n mynd i’r afael â’u materion / risgiau / cyfleoedd yn llwyddiannus ac yn brydlon, gofynnir i berchnogion gweithredoedd ‘critigol’ neu ‘sylweddol’ sydd heb eu datrys 12 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau gwreiddiol esbonio i’r Pwyllgor pam fod oedi mewn perthynas â mynd i’r afael â’r gweithredoedd.

25. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw faterion /risgiau ‘critigol’ neu ‘sylweddol’ sy’n berthnasol.

26. Mae diweddariad manwl ar statws y materion / risgiau / cyfleoedd ‘sylweddol’ sy’n cael eu tracio ar gael yn Atodiad 1.

27. Byddwn yn cadw llygaid ar yr holl weithredodd sydd angen sylw er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

# Atodiad 1: Statws Manwl Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sydd angen sylw

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad*2 | Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhaglenni Addysg Gynnar a Grantiau Gofal Plant** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 01/04/26 | **Rhesymol** | Nid yw'r cyngor yn cynnig y Cynnig Gofal Plant - elfen Addysg (10 awr) i'r holl ddarparwyr gofal plant a gofalwyr plant preifat, yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. | **Adolygiad dilynol ar y gweill.** Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Cyflwynir adroddiad dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. |
| **Archwiliad TG - Safonau Diogelwch Data'r Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS)** | 2024/25 | Mawrth 2025 | 31/05/26 | **Rhesymol** | Nid yw prosesau presennol ar gyfer derbyn taliadau gyda cherdyn dros y ffôn yn cydymffurfio â PCI DSS. | **Ar y gweill**<br><br>Mae datrysiad bellach ar waith sy'n cydymffurfio a PCI DSS, sef 'Call Secure', ar gyfer y ganolfan alwadau (taliadau'n cael eu cymryd trwy Paye.net). Mae galwyr sy'n dymuno gwneud taliadau yn cael eu trosglwyddo i system dalu ddiogel, sy'n cydymffurfio.<br><br>Nid yw'r Oriel yn derbyn taliadau dros y ffôn erbyn hyn ond mae modd talu drwy drosglwyddiad banc.<br><br>Mae gwaith ar y gweill i roi system dalu ar-lein ar waith ar gyfer y Gwasanaeth Hamdden, fel na fydd angen derbyn taliadau dros y ffôn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm digidol a'r cyflenwr i hwyluso'r gwaith hwn. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld y bydd y cyfleuster hwn yn weithredol yn gynnar ym mis Mai 2026. |

Tudalen 41

*Gradd sicrwydd bresennol - naill ai pan gynhaliwyd yr archwiliad gwreiddiol neu yn dilyn adolygiad dilynol.

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad*2 | Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion** | 2025/26 | Mehefin 2025 | 01/04/26 | **Cyfyngedig** | Ôl-groniad o asesiadau ariannol yn aros i gael eu prosesu. | **Adolygiad dilynol ar y gweill.**<br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Cyflwynir adroddiad dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. |
| **Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion** | 2025/26 | Mehefin 2025 | 01/04/26 | **Cyfyngedig** | Mae gan y Cyngor nifer o achosion o hen ddyledion sy'n gysylltiedig ag asesiadau ariannol / taliadau gohiriedig lle mae'r cleient wedi marw. | **Adolygiad dilynol ar y gweill.**<br>Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol er mwyn penderfynu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r materion/risgiau a godwyd yn ein hadroddiad gwreiddiol. Cyflwynir adroddiad dilynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf 2026. |
| **Rheoli Perfformiad** | 2025/26 | Hydref 2025 | 31/07/26 | **Rhesymol** | Nid oes gan y tîm Perfformiad Corfforaethol ddigon o adnoddau i wneud gwaith sicrhau ansawdd helaeth ar y data perfformiad a ddarperir gan wasanaethau pob chwarter i'w gynnwys ar y cerdyn sgorio corfforaethol. Mae diffyg system rheoli perfformiad penodol yn lleihau capasiti ymhellach. | **Ar y gweill**<br>Mae'r tîm perfformiad corfforaethol wrthi'n gweithio gyda'r adran TGCh i adolygu'r opsiynau ar gyfer creu system rheoli perfformiad mewnol ar gyfer y Cyngor cyfan gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft. Oherwydd blaenoriaethau eraill, bwriedir datblygu'r system yn ystod 2026/27 a'i rhoi ar waith yn 2027/28. |

Tudalen 42

| Teitl yr Archwiliad | Blwyddyn yr Archwiliad | Dyddiad Cyhoeddi'r Adroddiad | Dyddiad Targed Cyfredol | Gradd Sicrwydd yr Adroddiad*2 | Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle | Statws Presennol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Perfformiad** | 2025/26 | Hydref 2025 | 30/09/26 | **Rhesymol** | Mae diffyg cysondeb rhwng prosesau monitro perfformiad ar draws meysydd gwasanaeth. Er bod diwylliant perfformiad cryf mewn rhai gwasanaethau, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol ac adolygu mesurau perfformiad yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol, nid yw hyn yn wir am bob gwasanaeth. | **Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto.**<br>Mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau, mae'r tîm adolygu perfformiad wedi adolygu templedi'r cynllun darparu gwasanaeth ar gyfer 2026/27 a bydd yn cefnogi gwasanaethau dros yr wythnosau nesaf i gwblhau eu CDG. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill gyda gwasanaethau perthnasol ar ffyrdd o gryfhau eu prosesau monitro perfformiad unigol. |

Tudalen 43

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc** | Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio Manwl 2026 - Drafft |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Huw Ynyr<br>Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio<br>huwynyr@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry<br>Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau<br>gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a rheswm dros adrodd**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio'r trefniadau archwilio allanol, gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion. (3.4.8.11.3)<br><br>Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a rhoi adborth i Archwilio Cymru ar ei gynnwys. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi Cynllun Archwilio 2026 Archwilio Cymru, sy'n seiliedig ar broses gynllunio strwythuredig sy'n seiliedig ar risg.

1.2 Mae'n nodi'r meysydd gwaith gan gynnwys y canlynol:

1.2.1 Gwaith archwilio ariannol

1.2.2 Gwaith archwilio perfformiad, i gynnwys:

1.2.2.1 Trefniadau rheoli risg
1.2.2.2 Effeithiolrwydd canlyniadau prosiect
1.2.2.3 Cynnal a datblygu eiddo buddsoddi

1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r ffioedd archwilio, manylion y tîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau'r tîm archwilio a'r allbynnau arfaethedig.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried yr adroddiad ac yn darparu adborth ar y gwaith archwilio arfaethedig a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer 2026.

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Sir Ynys Môn – Cynllun Archwilio 2026

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Ein nodau a’n huchelgeisiau | 5 |
| Gwaith archwilio ariannol | 6 |
| Gwaith archwilio perfformiad | 14 |
| Swyddogaethau archwilio statudol eraill | 17 |
| Ffi archwilio | 18 |
| Tîm archwilio | 20 |
| Ansawdd archwilio | 22 |
| Rhagor o wybodaeth | 23 |

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Nghynllun Archwilio 2026. Mae'r Cynllun yn nodi sut y byddaf yn cyflawni eich archwiliad.

Mae fy nhîm archwilio wedi datblygu'r Cynllun gan ddilyn proses gynllunio strwythuredig a seiliedig-ar-risg, a fydd yn parhau trwy gydol yr archwiliad. Mae fy Nghod Ymarfer Archwilio yn darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut y dylai fy swyddogaeth archwilio a rhai swyddogaethau penodol eraill gael eu cyflawni gan fy archwilwyr.

Wrth graidd ein holl waith mae ein hymrwymiad i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb proffesiynol, gwrthrychedd, annibyniaeth ac ansawdd archwilio. Mae ein model tair llinell sicrwydd (tudalen 22) yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod y safonau ansawdd hynny'n cael eu cyrraedd. Mae ein hadroddiad ansawdd blynyddol diweddaraf yn darparu rhagor o wybodaeth am ein trefniadau ansawdd archwilio.

Bydd fy nhîm archwilio'n gweithio'n adeiladol gyda'ch staff i ddeall y materion yr ydych yn eu hwynebu, sicrhau bod y broses archwilio'n gweithredu mor esmwyth â phosibl, a darparu mewnwelediadau gwerthfawr ynglŷn ag unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Mae fy rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol, fel a amlinellir yn y Cynllun hwn, yn eistedd ochr yn ochr â gwaith archwilio cenedlaethol arall a all gynnwys gwaith sy'n ymwneud â'ch sefydliad chi. Gall gwaith archwilio perfformiad lleol oleuo adroddiadau cenedlaethol ehangach hefyd.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch archwiliad bydd fy nhîm archwilio'n hapus i'w trafod gyda chi. Byddant hefyd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

# Ein nodau a’n huchelgeisiau

## Ein diben

- Rhoi sicrwydd i bobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli’n dda
- Esbonio sut mae’r arian hwnnw’n cael ei wario
- Ysbrydoli’r sector cyhoeddus i wella

## Ein gweledigaeth

- Manteisio’n llawn ar ein safbwynt, ein harbenigedd a’n dyfnder unigryw ar fewnwelediad
- Cryfhau ein safle fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol
- Cynyddu ein hamlygrwydd, dylanwad a pherthnasedd
- Bod yn sefydliad sy’n esiampl ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

## Ein meysydd ffocws

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi’i dargedu ac sy’n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu

Gallwch gael gwybod mwy am Archwilio Cymru yn ein Cynllun Blynyddol 2025-26 a hefyd Ein Strategaeth 2022-27.

# Gwaith archwilio ariannol

## Archwilio'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol i mi gyhoeddi adroddiad ar eich datganiadau ariannol chi sy'n cynnwys barn ynglŷn â'u 'cywirdeb a thegwch' a'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir mewn mwy o fanylder yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor), mae gennyf hefyd gyfrifoldeb am:

- ardystio ffurflen i Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwybodaeth am y Cyngor i roi cymorth i baratoi Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan;
- ymateb i gwestiynau am y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol (bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi am y gwaith hwn, os yw'n angenrheidiol); ac
- ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau fel a gytunwyd gyda'r cyrff cyllido.

Ni osodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

## Ardystio hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau

Gofynnwyd i mi wneud gwaith ardystio ar hawliadau am grantiau gan y Cyngor hefyd, yr wyf yn rhagweld y bydd yn cynnwys ffurflenni budd-daliadau tai, pensiynau athrawon, ac ardrethi annomestig.

## Perthnasedd y datganiadau ariannol

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Mae perthnasedd yn gymwys nid dim ond i

gamddatganiadau ariannol, ond hefyd i ofynion datgelu ac ymlyniad wrth y fframwaith cyfrifyddu perthnasol a'r gyfraith.

Rwy'n pennu perthnasedd cynllunio a pherfformiad er mwyn:

- pennu'r lefel o gamddatganiad a allai beri i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain;
- rhoi cymorth i bennu cwmpas ein dull archwilio a phrofion archwilio canlyniadol;
- pennu meintiau samplau;
- asesu effaith camddatganiadau hysbys a thebygol yn y datganiadau ariannol; a
- hysbysu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch unrhyw gamddatganiadau heb eu haddasu uwchlaw lefel ddibwys, ein trothwy hysbysu.

Caiff y lefelau sy'n peri i mi farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol eu nodi isod.

**Perthnasedd cynllunio**

1% o wariant gros yw hyn yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol archwiliedig 2024-25.

**£3.105 miliwn**

**Trothwy hysbysu (dibwys)**

lefel perthnasedd o 5% yw hyn.

**£0.155 miliwn**

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon, ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

| **Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion** | **Datgeliadau partïon cysylltiedig** |
| --- | --- |
| £1,000<br>(neu band cywir agosaf) | £10,000 |

Bydd fy nhîm archwilio'n asesu lefelau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad.

## Risgiau arwyddocaol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol

Mae risgiau arwyddocaol yn golygu risgiau o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd y mae'r asesiad o risg gynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg gynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg arwyddocaol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (ISAs) eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio'n ei gwneud yn ofynnol i ni roi mwy o sylw i'r risgiau arwyddocaol hyn.

### Risg o wrthwneud gan reolwyr

Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio yn:

- profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a
- gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.

## Meysydd eraill y bydd ffocws arnynt

Rwy'n nodi isod risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a adnabuwyd sydd, er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau arwyddocaol fel uchod, yn rhai yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

### Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif perthnasol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd amcangyfrif yn perthyn iddo, gan ei fod yn sensitif i addasiadau bychain yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth ei gyfrifo.

Mae effaith amodau economaidd, yn enwedig lefelau cyfraddau llog, hefyd yn cael effaith sylweddol ar y rhwymedigaeth o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2025, er enghraifft, gwarged oedd y rhwymedigaeth mewn gwirionedd, yn bennaf oherwydd cyfraddau llog uwch.

Cynhaliwyd prisiad teirblynyddol o'r cynllun ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol y Cyngor am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Ceir nifer o achosion cyfreithiol hefyd a allai effeithio ar brisio'r rhwymedigaeth net.

Ceir risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged wedi ei ch/gamddatgan yn berthnasol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;
- yn asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a wnaeth y prisiadau;
- yn asesu cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;

- yn profi cywirdeb rhwymedigaeth net a datgeliadau'r gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;
- yn asesu rhesymoldeb y tybiaethau a wnaed gan yr actiwari trwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chyflawni unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol;
- yn cynnal rhaglen o waith i ddarparu sicrwydd ynghylch y data a ddefnyddiwyd gan yr actiwari i gynnal y prisiad teirblynyddol; ac
- yn asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael effaith berthnasol ar y rhwymedigaeth net ac, os felly, yn cadarnhau bod hyn wedi cael ei gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.

## Prisio tir ac adeiladau

Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau ar y cyfrifon yn amcangyfrif perthnasol.
Mae'n ofynnol bod tir ac adeiladau'n cael eu dal ar sail prisiad sy'n ddibynnol ar natur a defnydd yr asedau. Mae llawer iawn o oddrychedd yn perthyn i'r amcangyfrif hwn, gan ddibynnu ar y tybiaethau gan arbenigwyr a rheolwyr, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau.
Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae CIPFA wedi cyflwyno gofynion newydd ar gyfer mesur asedau yn ddiweddarach, gan gynnwys mynegeio. Bydd hyn yn cyflwyno dyfarniadau a chyfrifiadau ychwanegol i dimau cyllid eu cyflawni.

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y prisiwr i asesu ei chyflawnder;
- yn gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;
- yn profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn i sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a thybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio'n rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol;

- yn adolygu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer mynegeio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ac yn esgor ar amcangyfrif rhesymol; ac
- yn profi'r cysoniad rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.

## Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion

Er na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn uwch swyddogion ar gyfer 2025-26, mae cydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion yn dal i fod o ddiddordeb mawr ac yn berthnasol o ran ei natur. Yn ogystal, nodwyd gwallau yn y datgeliadau yn natganiadau ariannol 2024-25.

Felly, ceir risg y gallai gwallau gwerth isel hyd yn oed yn y datgeliad arwain at gamddatganiad perthnasol.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2025-26;
- yn sicrhau bod y gydnabyddiaeth ariannol a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol;
- yn sicrhau bod symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm ac wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion.

## Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodiadau a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff/parti arall.

Mae gan y Cyngor nifer o berthnasoedd y gellid ystyried eu bod yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn dra hysbys, er enghraifft Llywodraeth Cymru fel cyllidwr.

Fodd bynnag, lle cyfyd perthnasoedd partïon cysylltiedig trwy berthnasoedd swyddogion neu aelodau unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynglŷn â'r perthnasoedd hyn. Mae'r trafodiadau hyn yn rhai o ddiddordeb mawr ac ystyrir eu bod yn berthnasol o ran eu natur.

Ceir risg o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed lle mae gwerth y rhain yn gymharol fach.

**Ein hymateb arfaethedig**

Bydd fy nhîm archwilio:

- yn adolygu proses y Cyngor ar gyfer adnabod perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodiadau a balansau cysylltiedig;
- yn cyflawni gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnder perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- yn sicrhau bod datgeliadau'n gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

## Amserlen archwilio’r datganiadau ariannol

Isod ceir amserlen sy’n dangos camau allweddol yr archwiliad a’n canlyniadau archwilio allweddol y byddwn yn eu darparu ar eich cyfer.

**Arddangosyn 1: Amserlen archwilio’r datganiadau ariannol**

| | |
|---|---|
| **Cynllunio**<br>**Ionawr – Ebrill 2026]** | Cyfarfod cynllunio<br>Gweithdrefnau asesu risg lefel uchel<br>Asesu’r risg o dwyll<br>Cynllunio amcangyfrifon cyfrifyddu<br>Asesu risg yn yr amgylchedd TG<br>Ffi archwilio ddangosol |
| **Interim**<br>**Ionawr - Ebrill 2026** | Llifoedd gwybodaeth<br>Gweithdrefnau asesu risg manwl<br>Adolygu rheolaethau TG<br>Datblygu strategaeth brofi<br>Profi samplau’n gynnar<br>Cynllun Archwilio Drafft |
| **Gwaith maes**<br>**Gorffennaf - Medi 2026** | Diweddaru’r asesiad risg<br>Archwiliad o’r datganiadau ariannol gan gynnwys yr adroddiad naratif a’r datganiad llywodraethu blynyddol<br>Cwblhau profion archwilio<br>Gwerthuso’r canfyddiadau archwilio<br>Cyfarfod cau’r archwiliad |
| **Adrodd**<br>**Medi 2026** | Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon<br>Cyflwyno’r canfyddiadau i’r rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu<br>Ardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol |
| **Ôl ardystio**<br>**Hydref 2026** | Argymhellion ar gyfer gwella<br>Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>Dysgu ar ôl y prosiect (Hydref 2026) |

# Gwaith archwilio perfformiad

## Trefniadau priodol

Fel a nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio, rhaid i mi fy argyhoeddi fy hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau ('gwerth am arian'), a llunio casgliadau yn unol â hynny.

Rwy'n gwneud hyn trwy gynnal rhaglen briodol o waith archwilio perfformiad bob blwyddyn. Rwy'n seilio fy rhaglen waith ar asesiad o risgiau nad oes gan y Cyngor a'r sector Llywodraeth Leol ehangach yng Nghymru drefniadau priodol, gyda'r gwaith yn canolbwyntio fel arfer ar y meysydd lle ceir y risg fwyaf.

Wrth ddylunio'r rhaglen, rhaid i'm harchwilwyr fod wedi ystyried trefniadau ar lefel gorfforaethol ac ar lefel gwasanaethau, gan gynnwys:

- Cynllunio strategol
- Rheoli asedau
- Cynllunio ariannol
- Gweithio ar y cyd
- Rheoli perfformiad a risg
- Llywodraethu cyffredinol
- Cynllunio'r gweithlu

Bydd fy archwilwyr hefyd wedi ystyried gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud neu ei gynllunio gan gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu eraill yn y Cyngor.

Rwy'n gwneud fy ngwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio'r safon ISSAI 3000 a ddatblygwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw INTOSAI. Corff anllywodraethol ydyw a

chanddo statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

## Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Diffinnir yr **egwyddor datblygu cynaliadwy** fel ymddwyn mewn modd…

…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt ystyried y **'pum dull o weithio'**.




Rhaid i mi gynnal yr archwiliadau hyn ym mhob corff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf o leiaf unwaith yn ystod cyfnod penodedig.

Gallai'r rhain fod yn archwiliadau unigol fel rhan o'm rhaglen archwilio perfformiad. Fodd bynnag, lle y bo'n berthnasol ac yn briodol gwneud hynny, bydd fy archwilwyr yn integreiddio'r gwaith sy'n ofynnol fel rhan o waith archwilio perfformiad arall sydd yn yr arfaeth ar gyfer y Cyngor. Bydd fy archwilwyr yn parhau i ymgysylltu'n agos â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i helpu i gydlynu ein priod weithgareddau.

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Rwy'n nodi isod fanylion fy ngwaith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau ar gyfer 2026-27.

## Trefniadau rheoli risg

Dylid sicrhau rheoli risg effeithiol, tryloywder, a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid o adolygiadau rheolaidd o'r gofrestr risg a threfniadau priodol ar gyfer ei defnyddio wrth wneud penderfyniadau. Bydd y prosiect hwn yn adolygu trefniadau rheoli risg y Cyngor.

## Effeithiolrwydd canlyniadau prosiect

Ein hamcan ar gyfer yr archwiliad hwn yw sefydlu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth gynllunio, cynnal ac adolygu un o'i brosiectau sy'n cyfrannu at Gynllun y Cyngor 2023-28.

## Cynnal a datblygu eiddo buddsoddi

Mae'r Cyngor wedi datgan mai un o'i nodau yw cynnal a datblygu ei eiddo buddsoddi. Byddwn yn archwilio a yw ei drefniadau'n darparu sicrwydd o werth am arian ac yn asesu i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau strategol.

# Amseriad Gwaith Archwilio Perfformiad

Bydd fy nhîm yn gweithio gyda swyddogion yn y Cyngor i drefnu'r union ddyddiadau ar gyfer y prosiectau unigol a bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n rheolaidd trwy ein rhaglen waith ac amserlen a diweddariadau canol blwyddyn diweddarach. Mae fy archwilwyr yn anelu at gwblhau'r gwaith archwilio a nodir yn y cynllun hwn yn sylweddol erbyn diwedd mis Mehefin 2027.

# Swyddogaethau archwilio statudol eraill

Yn ogystal â'r archwiliad o'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol i gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r cyfrifoldebau hyn:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Hawl i gyflwyno gwrthwynebiadau mewn archwiliad.

Gan bod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi gwneud unrhyw lwfans yn y ffi isod. Os byddaf yn cael cwestiynau a gwrthwynebiadau, bydd fy archwilwyr yn trafod yr effaith bosibl ar ffioedd archwilio gyda'r Swyddog Adran 151.

# Ffi archwilio

Ym mis Ionawr 2026, fe gyhoeddom ni ein Cynllun Ffioedd 2026-27 yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Cyllid y Senedd sy’n nodi’r cynnydd cyfartalog i gyfraddau’r ffioedd o 5.3%.

Mae’r ffi wirioneddol y bydd unrhyw gorff unigol a archwilir yn ei thalu’n dibynnu nid dim ond ar gyfraddau ein ffioedd ond ar swm y gwaith a’r cymysgedd o sgiliau sy’n ofynnol.

Mae'r ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2026 yn arddangosyn 2 yn cynrychioli cynnydd o 4.7% ar 2025, oherwydd cymysgedd sgiliau diwygiedig ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Bydd cynllunio’n digwydd yn barhaus, ac efallai y bydd newidiadau i’m rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, yn ofynnol os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i’r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb i’m harchwilwyr fod wedi eu trafod gyda’r Swyddog Adran 151 yn gyntaf. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi dadansoddiad pellach o’r ffi archwilio a amcangyfrifir ar eich cyfer.

**Rwy’n seilio fy ffi archwilio ar y tybiaethau canlynol:**

- bod y canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi’r gofynion disgwyliedig o ran papurau gwaith i ategu’r datganiadau ariannol ac yn cynnwys graddfeydd amser a chyfrifoldebau;
- bod gofynion archwilio fy mhrosiectau archwilio perfformiad unigol yn cael eu hateb gan y corff a archwilir, neu fod trefniadau eraill addas yn cael eu rhoi ar waith sy’n bodloni anghenion fy nhîm archwilio; ac
- nad oes unrhyw faterion arwyddocaol, heblaw fel a grynhoir yn y cynllun hwn, yn cael eu hadnabod yn ystod yr archwiliad.

## Arddangosyn 2: Dadansoddiad o'm ffi archwilio amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (ac ar gyfer 2025 er mwyn cymharu)

### Ffi amcangyfrifedig ar gyfer 2026 (£)[1]

| Archwilio'r datganiadau ariannol [2] | Gwaith archwilio perfformiad [3] | Gwaith ardystio grantiau [4] |
|---|---|---|
| £246,078 | £123,642 | £70,500 |

**Cyfanswm y ffi: £440,220**

### Ffi ar gyfer 2025 (£)

| Archwilio'r datganiadau ariannol (gwirioneddol) | Gwaith archwilio perfformiad[5] | Gwaith ardystio grantiau (amcan[6]) |
|---|---|---|
| £235,938 | £117,444 | £67,000 |

**Cyfanswm y ffi: £420,382**

[1] Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW.

[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Hydref 2026.

[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2027.

[4] Yn daladwy wrth i waith gael ei wneud.

[5] Mae'r gwaith yn parhau ac felly dyma'r amcangyfrif diweddaraf sydd ar gael, y ffi wreiddiol oedd £117,444.

[6] Ar adeg ysgrifennu, mae'r gwaith o ardystio cymhorthdal budd-dal tai 2024-25 yn mynd rhagddo.

# Tîm archwilio

Bydd fy nhîm archwilio'n parhau i weithio ac ymgysylltu o bell gan ddefnyddio technoleg, ond bydd peth gwaith ar safleoedd yn parhau lle y bo'n briodol gwneud hynny.

Yn wir, canfu fy nhîm archwilio a oedd ar safleoedd yn ystod gwaith archwilio cyfrifon y llynedd fod agosrwydd at swyddogion yn ffordd fwy effeithlon o weithio, ac mae swyddogion wedi rhoi adborth cadarnhaol ar eu profiadau.

Mae gan gyrff a archwilir gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch a llesiant staff Archwilio Cymru pan ydynt yn eich mangreoedd.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3: Fy nhîm archwilio lleol**

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarwyddwr Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru | |
| | **Archwilio Ariannol** | **Archwilio Perfformiad** |
| **Arweinydd Ymgysylltu** | Matthew Edwards<br>matthew.edwards@archwilio.cymru | Gary Emery<br>gary.emery@archwilio.cymru |
| **Rheolwr Archwilio** | Rachel Freitag<br>rachel.freitag@archwilio.cymru | Carwyn Rees<br>carwyn.rees@archwilio.cymru |
| **Arweinydd Archwilio** | David Tomalin<br>david.tomalin@archwilio.cymru | Lora Gwawr Williams<br>lora.williams@archwilio.cymru |

Gallaf gadarnhau bod aelodau fy nhîm i gyd yn annibynnol ar y Cyngor a'ch swyddogion. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi ei ddwyn i'ch sylw.

## Secondiad staff

Mae un o gyflogeion Archwilio Cymru ar secondiad gyda chi. Er mwyn diogelu rhag unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilwyr, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol yn unol â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2024:

- ni fydd y sawl sydd ar secondiad yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau rheoli; a
- bydd y secondiad am uchafswm o 12 mis.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio.

### Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu

### Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

### Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i ganfod:

- Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.
- Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.
- Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus
- Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.
- Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodd i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc** | Rheoli Perfformiad Ailgylchu |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Huw Ynyr |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gwyndaf Parry |
| **Rheswm dros Adrodd**<br>• Mae paragraff 3.4.8.11.3 o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi: "Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion. | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Edrychodd yr archwiliad ar sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu. Roedd yr archwiliad yn canolbwyntio ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer:

- deall perfformiad ailgylchu;
- cynllunio strategol a gweithredol a chyfathrebu; a
- gwerth am arian.

## 2.0 Canfyddiadau

2.1 Canfu Archwilio Cymru, ar hyn o bryd fod **gan y Cyngor drefniadau clir a chadarn ar waith i reoli ei berfformiad ailgylchu yn effeithiol.**

2.2 Mae'r trefniadau'n cynnwys:

- cynlluniau strategol a gweithredol cyfredol i ymateb i dargedau ailgylchu;
- adroddiadau cyfnodol a manwl sy'n cynorthwyo dealltwriaeth y Cyngor o'i berfformiad gwasanaeth ailgylchu a'i feincnodi;
- cynnwys trigolion yr ynys yn ei ymdrechion i yrru dim gwastraff; a
- goruchwyliaeth reolaidd o ganlyniadau contractau a gwariant.

2.3 Fodd bynnag, mae gallu'r Cyngor i asesu gwerth am arian yn dibynnu ar ba mor effeithiol yw ei ymyriadau o ran gwella ei berfformiad ailgylchu a lleihau'r risg o gosbau.

2.4 Nid oes unrhyw argymhellion ar gyfer y Cyngor.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Adolygu a chael sicrwydd o'r archwiliad archwilio.

# Rheoli Perfformiad Ailgylchu

Cyngor Sir Ynys Môn

Ebrill 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn o dan adran 17 (2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i’ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy’n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae’n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda’r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein hargymhellion | 6 |
| Ein canfyddiadau | 7 |
| Atodiadau | 11 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 12 |
| Amdanom ni | 14 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Edrychodd yr archwiliad ar sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer:

- deall perfformiad ailgylchu;
- cynllunio strategol a gweithredol a chyfathrebu; a
- gwerth am arian.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Yn 2010, gosododd Llywodraeth Cymru dargedau ailgylchu oedd yn cynyddu'n raddol, i gwrdd 70% erbyn mis Mawrth 2025. Mae strategaeth *Tu Hwnt i Ailgylchu* Llywodraeth Cymru yn anelu at ailgylchu 75% erbyn 2030 a 100% erbyn 2050, gan hyrwyddo economi gylchol. Er nad yn dargedau statudol ar hyn o bryd, mae'n gosod cyfeiriad clir i gynghorau i barhau i wella cyfraddau ailgylchu.

3 O dan yr un ddeddfwriaeth, mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ddirwyo cynghorau £200 am bob tunnell o wastraff sy'n methu â chyrraedd y targed ailgylchu o 70%. Gall methu â chyrraedd y targed arwain at gosbau sy'n cyfateb i tua £250,000 am bob 1% y mae cyngor yn methu â chyrraedd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn hanesyddol y byddai gosod dirwyon yn ymyrraeth 'dewis olaf'.

4 Un o'r chwe amcan strategol yng Nghynllun Cyngor Ynys Môn 2023-2028 yw Newid Hinsawdd - 'ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030'. Mae'r Cynllun yn nodi y bydd y Cyngor yn 'sefydlu cyfradd o 70% i ailgylchu o gartrefi '.

5 Yn 2019-20, ailddefnyddiodd, ailgylchodd neu gompostiodd Cyngor Sir Ynys Môn 68% o'i wastraff preswyl o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymreig o 65%. Erbyn 2024-25, roedd y ganran a adroddwyd wedi gostwng i 65% o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymreig o 68%, a'r targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70%.

6 Yn 2024-25, roedd gwariant cyfartalog Cymru ar wastraff y pen yn £114. Yn yr un cyfnod, gwariodd Cyngor Sir Ynys Môn £124 y pen[1].

7 Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig asesu a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i ddeall perfformiad ei reolaeth ailgylchu, i gyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol, ac i sicrhau gwerth am arian y gwasanaeth.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

8 Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor drefniadau clir a chadarn ar waith i reoli ei berfformiad ailgylchu yn effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys

- cynlluniau strategol a gweithredol cyfredol i ymateb i dargedau ailgylchu;
- adroddiadau cyfnodol a manwl sy'n cynorthwyo dealltwriaeth y Cyngor o berfformiad ei wasanaeth ailgylchu a'i feincnodi;
- cynnwys trigolion yr ynys yn ei ymdrechion i yrru dim gwastraff; a
- goruchwyliaeth reolaidd o ganlyniadau contractau a gwariant.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r Cyngor i asesu gwerth am arian yn dibynnu ar ba mor effeithiol yw ei ymyriadau o ran gwella ei berfformiad ailgylchu a lleihau'r risg o gosbau.

[1] Darganfod ystadegau a data am Gymru | StatsCymru

## Yr hyn a argymhellir gennym

9 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion i'r Cyngor. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi darparu tystiolaeth ddigonol a phriodol y gallem ei gwirio i weld sut y bodlonid y meini prawf archwilio. Dangosodd hyn y gallem fod yn sicr o'r dystiolaeth a adolygwyd gennym fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol i reoli ei berfformiad ailgylchu.

# Ein canfyddiadau

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor drefniadau clir a chadarn ar waith i reoli ei berfformiad ailgylchu yn effeithiol.

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth ddatblygedig o berfformiad ei wasanaeth ailgylchu.

10 Mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ble mae'n mesur a monitro ei berfformiad ailgylchu yn rheolaidd ac yn cyflwyno'r wybodaeth hon mewn adroddiadau ffurfiol. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ailgylchu yn ffurfiol ar ei berfformiad. Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ailgylchu yn ei sgorfwrdd corfforaethol i aelodau a'r cyhoedd ac yn ei ffurflenni statudol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Aelod Portffolio yn cael gwybod am berfformiad ailgylchu'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cwrdd â'i gontractwr gwastraff, Biffa, yn wythnosol, sy'n darparu gwiriadau gweithredol parhaus.

11 I helpu ennill dealltwriaeth o sut mae ei wasanaeth ailgylchu yn perfformio, mae'r Cyngor wedi ymchwilio'n ffurfiol i'r rhesymau dros ei

- lefel uchel o wastraff gweddilliol;
- cynnyrch ailgylchu sych is na'r disgwyl; a
- lefelau isel o ailgylchu gwastraff bwyd.

12 Gofynnodd y Cyngor i ymgynghorwyr arbenigol y diwydiant gwastraff WRAP Cymru gynnal y gwaith hwn. Nododd WRAP Cymru ymyriadau a allai helpu i wella ei berfformiad ailgylchu. Mae'r rhain yn cynnwys

- cynyddu ailgylchu wrth ymyl y ffordd;
- lleihau meintiau biniau ar gyfer gwastraff gweddilliol; a

- gwell ymgysylltiad cymunedol.

13 O ganlyniad, mae’r Cyngor wedi mynd ati i ddefnyddio’r mewnbwn hwn i lunio cynlluniau gweithredu penodol i wella ei berfformiad ailgylchu.

14 Mae'r Cyngor yn edrych ar wybodaeth gymharol gan gynghorau ledled y DU sy'n defnyddio Biffa fel eu prif gontractwr gwastraff. Mae’r Cyngor yn cymharu ei berfformiad ailgylchu â chynghorau eraill Cymru trwy ddefnyddio data a gyhoeddwyd gan

- WasteDataFlow;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; ac
- adroddiadau'r diwydiant gwastraff.

15 Rhoddodd hyn wybodaeth ddefnyddiol i gefnogi’r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus a nodi materion sy'n dod i'r amlwg. O ganlyniad, gall y Cyngor dargedu adnoddau ar gyfer ymyriadau i helpu i wella ei berfformiad ailgylchu.

## Mae gan y Cyngor gynllun strategol a chynlluniau gweithredol cyfoes i’w gynorthwyo i gyrraedd y targed ailgylchu cyfredol.

16 Mae'r Cyngor wedi nodi cyfeiriad strategol clir i'w helpu i gwrdd targedau ailgylchu cenedlaethol ac wedi datblygu set o gynlluniau gweithredol er mwyn gwella ei berfformiad ailgylchu. Er enghraifft, mae Cynllun y Cyngor 2023–28 yn ymrwymo i gynyddu cyfraddau ailgylchu a chyflawni targed presennol y llywodraeth o 70%. Mae Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu'r Cyngor ar gyfer 2024–29 yn nodi pedwar blaenoriaeth. Cefnogir y Cynllun Strategol gan dri chynllun gweithredu manwl sy'n cwmpasu cyfathrebu, gwelliant a chyllid.

17 Yn seiliedig ar ganfyddiadau WRAP Cymru ac ymchwil arall, mae trefniadau rheoli ailgylchu'r Cyngor yn cynnwys y cynlluniau gweithredu cyfredol canlynol:

- Cynllun Gweithredu Ymyrraeth Ymyl y Ffordd;
- Cynllun Gweithredu Ailgylchu yn y Gweithle;
- cynlluniau parhad busnes; a
- pharodrwydd fflyd cerbydau trydan.

18 Mae’r Cyngor yn cyfathrebu ac ymgysylltu efo’i breswylwyr fel cyfranwyr allweddol yn ei gynlluniau i wella ei berfformiad ailgylchu. Er enghraifft, mae’r Cyngor yn cynllunio ei ymgysylltiad cyfryngau cymdeithasol gyda thrigolion ac mae'n monitro themâu yn yr ymatebion. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus oedd wedi cael ei hyrwyddo yn effeithiol ar newidiadau arfaethedig i'w wasanaeth gwastraff. Roedd hyn yn cynnwys holiadur a naw o ddigwyddiadau galw heibio ac fe dderbyniwyd oddeutu tair mil o ymatebion.

19 O ganlyniad, mae trefniadau'r Cyngor yn darparu sail gref iddo gynllunio, ariannu a chyflawni gwelliannau i'w berfformiad ailgylchu. Dylai hyn helpu'r Cyngor i gyrraedd targedau ailgylchu a chydymffurfio â rheoliadau. Er hynny, mae'r Cyngor hefyd wedi nodi, os bydd yn penderfynu gweithredu newidiadau i'r gwasanaeth, y bydd angen iddo ddiwygio ei gynlluniau gweithredol a chynhyrchu amserlenni cyflawni o’r newydd.

## Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau cadarn i sicrhau gwerth am arian yn ei ymyriadau ailgylchu.

20 Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian drwy ei oruchwyliaeth arferol o gontractau a gwariant, gyda chefnogaeth modelu ariannol.

21 Er enghraifft, mae'r Cyngor yn trafod gwerth am arian mewn cyfarfodydd perfformiad misol gyda'i gontractwr gwastraff Biffa. Mae gan y Cyngor drefniadau i graffu ar ei anfonebau misol gan Biffa. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle rheolaidd i'r Cyngor wirio anfonebau yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt, costau amrywiol, ac atodlenni prisio contractau. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu modelu ariannol tymor byr i ganolig i gymharu'r opsiynau sydd ganddo ar gyfer cyrraedd targedau perfformiad ailgylchu, gan gynnwys asesu costau, buddion, a risgiau fel dirwyon.

22 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Asesiad Prosiect Strategol Cychwynnol i geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ariannu gwelliannau i'w wasanaeth gwastraff. Clywsom dystiolaeth lafar o sut mae'r Cyngor wedi ystyried cyfleoedd incwm fel codi ffioedd am ei wasanaethau ailgylchu a gwerthu deunyddiau. Mae'r Cyngor eisoes yn codi tâl am rai gwasanaethau ailgylchu, fel gwastraff gardd ac yn adolygu'r ffioedd hyn yn flynyddol.

23 Mae'r Cyngor wedi ystyried pa welliannau y gallai eu gwneud i'w wasanaeth gwastraff ac ailgylchu o ran cost a chanlyniadau. Mae hefyd wedi ystyried y risg ariannol ac enw da i'r Cyngor o beidio â gallu cyrraedd targedau ailgylchu'r llywodraeth. O ganlyniad, mae trefniadau'r Cyngor yn caniatáu iddo herio costau, gwneud dewisiadau buddsoddi gwybodus, a dangos economi ac effeithlonrwydd ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu.

24 Bydd sicrwydd parhaus bod trefniadau rheoli ailgylchu'r Cyngor yn sicrhau gwerth am arian yn y tymor hwy a lleihau'r risg o gosbau ariannol yn dibynnu ar

- y newidiadau y mae'n penderfynu eu gwneud i'w wasanaeth gwastraff; ac
- amseriad y newidiadau a'u llwyddiant.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Adolygodd yr archwiliad reolaeth y Cyngor o berfformiad ei wasanaeth ailgylchu. Canolbwyntiodd ar:

- ddeall perfformiad ailgylchu;
- cynllunio strategol a gweithredol; a
- gwerth am arian.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

A yw'r Cyngor yn deall perfformiad ei wasanaeth ailgylchu?

A oes gan y Cyngor strategaeth a chynllun gweithredol clir i ymateb i dargedau ailgylchu cenedlaethol?

A oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ymyriadau ailgylchu?

### Meini prawf

Lluniwyd y meini prawf archwilio drwy ystyried beth yw 'da' o ran

- cydymffurfio â deddfwriaeth;
- y rhesymau dros gyfraddau perfformiad cyfredol a gorffennol;
- sut mae'r Cyngor yn cymharu ei berfformiad ag eraill;
- sut mae'n cyfleu ei dargedau ailgylchu a'i berfformiad i randdeiliaid; a

- sut mae’n sicrhau gwerth am arian fel y’i diffinnir gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth).

## Dulliau

Roedd ein dulliau ar gyfer yr archwiliad hwn yn cynnwys casglu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gyflenwyd gan y Cyngor ac a ddilyswyd gan y tîm archwilio. Cyfarfuom â swyddogion allweddol ac adolygom ddogfennau sy'n cyfateb i'r meini prawf archwilio.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallent wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 | |
| **Pwnc:** | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2025-26 | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru | |
| **Awduron yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru | Andrew Lewis<br>Swyddog Yswiriant ac Atal Twyll<br>AndrewLewis@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r pwyllgor dderbyn adroddiad sicrwydd blynyddol ynglyn â'i drefniadau yswiriant (3.4.8.7.3) wrth ystyried fframwaith sicrwydd y cygor yn ehangach (3.4.8.7.1).<br><br>Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i'r pwyllgor ynglyn â'r modd y mae'r cyngor yn rheoli ei ddarpariaeth yswiriant a'r heriau wrth symud ymlaen. | | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad yn nodi trefniadau sicrwydd y cyngor, a hanes colledion diweddar ar gyfer y prif feysydd risg sydd wedi'u hyswirio. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth ynglyn â'r heriau wrth symud ymlaen.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r tueddiadau ac ystyried y mesurau lliniaru sydd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad hwn.



# Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2025-26

Ebrill 2026

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Andrew Lewis BA IRRV (DIP) ACFTech

Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

# Cynnwys


Cyflwyniad 1
Strwythur Yswiriant 2
Darpariaeth Bresennol 3
Crynodeb Hawliadau 4
Cofnod o hawliadau a thueddiadau 5
Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr 5
Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus 5
Hawliadau Modur 5
Hawliadau Eiddo 6
Hawliadau Cyn 2021 6
Heriau a Chyfleoedd 7
Atodiad A - Crynodeb Hawliadau 9


**Llun clawr: Bae Trearddur yn ystod Storm Éowyn (24 Ionawr 2025), pumed storm tymor 2024-25**

# Cyflwyniad

Mae’r cyngor yn caffael yswiriant i’w amddiffyn yn erbyn risgiau. Y prif bolisïau yswiriant mae’r cyngor yn eu caffael yw:

- **Anafiadau (atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwr)**
- **Eiddo**
- **Moduron**

Mae **polisïau atebolrwydd cyhoeddus** ac **atebolrwydd y cyflogwr** yn indemnio’r cyngor yn erbyn costau ac iawndal mae’n atebol i dalu pan fydd aelod o’r cyhoedd, busnesau neu weithwyr yn cyflwyno hawliadau o ganlyniad i ddifrod, anafiadau neu salwch sy’n codi o ganlyniad i esgeulustod y cyngor.

Mae’r polisïau **eiddo** yn digolledu’r cyngor am ddifrod i’w adeiladau a’u cynnwys yn dilyn difrod a achosir gan beryglon penodol e.e. tân, storm ac yn cynnwys yswiriant amhariad ar fusnes.

Mae yswiriant **modur** yn indemnio’r cyngor yn erbyn difrod neu anafiadau a achosir i drydydd parti gan gerbydau’r cyngor ac mae’n digolledu’r cyngor am ddifrod i’w gerbydau.

Mae polisiau eraill yn cynnwys **Indemniad Swyddogion, Trosedd, Esgeulustod Proffesiynol, Atebolrwydd Llogwyr** a **Peiriannau Contractwyr.**

Mae polisïau ar waith ar gyfer **Morwrol, Terfysgaeth** a **Chelf Gain.**

Mae’r holl hawliadau’n cael eu trin yn fewnol i ddechrau (casglu adroddiadau gan wasanaethau) cyn cael eu trosglwyddo i’n darparwyr yswiriant. Mae ffurflen gais ar gael ar wefan y cyngor fel bo hawlwyr yn gallu gwneud hawliad.

# Strwythur Yswiriant

Mae'r cyngor yn defnyddio cyfuniad o **hunan-yswiriant** ac **yswiriant allanol** i fynd i'r afael â goblygiadau ariannol y risg. Mewn rhai achosion, er bod y cyngor wedi trefnu yswiriant allanol, mae'n hunan-yswirio canran fawr o'r hawliadau sydd wedi eu talu drwy ddewis talu swm **cychwynnol** mawr ('excess'). I leihau'r risg ariannol mae'r Cyngor wedi negodi arhosfa agregau (cap) ar y polisïau hyn; unwaith mae hwn yn cael ei gyrraedd mae'r yswiriwr yn talu unrhyw hawliadau pellach.

Ers 1 Hydref 2017, mae'r swm cychwynnol ('excess') ar gyfer y prif bolisïau fel â ganlyn:

| Polisi | Swm Cychwynnol |
|---|---:|
| Anafiadau (atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwr) | £52,500 |
| Moduron | £1,000 |
| Eiddo - ysgolion | £25,000 |
| Eiddo – Adeiladau Cyffredinol a Thai | £10,000 |
| Eiddo – Mân ddaliadau a Masnachol | £2,500 |

Mae hunan ariannu colledion yn rhan o agwedd gyffredinol y cyngor tuag at reoli risg. Mae'n darparu mwy o gymhelliant i ddelio â risg yn fwy effeithiol o gofio bod unrhyw ostyngiad mewn hawliadau o fudd uniongyrchol i'r cyngor. Mae hefyd yn lleihau'r premiwm sy'n daladwy ac atebolrwydd y cyngor ar gyfer Treth Premiwm Yswiriant (sydd ar hyn o bryd yn 12%[1]).

Er mwyn cwrdd elfen hunain yswiriant unrhyw hawliad, mae'r cyngor wedi sefydlu Cronfa Yswiriant mewn Arian Wrth Gefn wedi ei Glustnodi a Chyfrif Darpariaeth Yswiriant. Tra ei bod hi'n bwysig sicrhau bod y Gronfa Yswiriant yn cynnwys adnoddau digonol i gwrdd â'i rwymedigaethau, mae yna hefyd gost cyfle i gynnal gwell cydbwysedd na sydd angen.

Er mwyn sicrhau bod y Gronfa yn ddigonol i gwrdd â chostau ei hawliadau ond nad yw'n cynnwys gormod o arian wrth gefn, bydd y Rheolwr Archwilio a Risg, gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, yn adolygu'r Gronfa bob blwyddyn.

Cynyddodd treth premiwm yswiriant o 6% i 9.5% ym mis Tachwedd 2015, i 10% yn Hydref 2016 ac ar 1 Mehefin 2017, i 12%.

## Darpariaeth Bresennol

I sicrhau bod y cyngor yn gallu gwneud defnydd llawn o'r farchnad yswiriant, cafodd brocer yswiriant ei gontractio gan ddefnyddio ymarferiad caffael drwy 'Yorkshire Procurement Organisation'[2] (YPO). Mae broceriaid yswiriant yn chwarae rôl allweddol wrth gaffael yswiriant am eu bod yn arbenigwyr llawn amser, gyda sgiliau proffesiynol i ymdrin â busnesau yswiriant. Cafodd Marsh ei benodi, a darparodd arbenigedd a gwybodaeth am yswiriant a gwerth am arian mewn dylunio rhaglenni yswiriant.

Ar y cyd â Marsh, cynhaliwyd ymarfer tendr cynhwysfawr yn 2024, gan ddefnyddio Yorkshire Procurement Organisation, a denwyd dyfynbrisiau gan dri darparwr. Yn dilyn ymarferiad gwerthuso, dyfarnwyd y contract 3 mlynedd i Zurich Municipal (ZM), y darparwr cyfredol, oedd yn cynnwys gosod polisïau Anafiadau, Eiddo, Moduron, Troseddol, Damweiniau Personol a Theithio. Daeth y Cytundeb Tymor Hir i rym ar 01/10/2024. Mae'r estyniadau dwy flynedd i'r contract hwn ar gael ar 01/10/2027 a 01/10/2029.

Amlygodd y broses dendro fod elfennau o'r symiau yswiriedig a ddarparwyd wedi dyddio. Mae'n ddyletswydd hanfodol fod y darparwr polisi yn sicrhau bod y symiau yswiriedig yn cynrychioli'r costau adfer cyffredinol yn cynnwys yr holl elfennau o ddymchwel, clirio, ffioedd penseiri, costau cynllunio ac adeiladu. Gall symiau anghywir sydd wedi'u hyswirio gael effaith sylweddol ar setliadau hawliadau a allai arwain at ddiffygion o filiynau o bunnoedd. Felly, cynhaliodd y cyngor raglen gynhwysfawr i ailbrisio y symiau adeiladu wedi'u hyswirio yn ystod blwyddyn gyntaf y polisi.

Yn dilyn adnewyddu'r polisi ym mis Hydref 2025, cynyddodd premiymau allanol oherwydd y cynnydd mewn cyfraddau ac yn ôl y Cytundeb Tymor Hir. Mae'r cynnydd mewn cyfraddau ar draws y sector ac yn gysylltiedig â chyfartaledd enillion wythnosol, felly nid yw'n unigryw i'r cyngor. Mae'r elfen eiddo yn destun cyfradd flynyddol sefydlog, yn amodol ar olrhain perfformiad hawliadau dan y gymhareb golled o 50%. Er bod hyn wedi'i dorri yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd ZM y cymal codi ar y gyfradd a gytunwyd yn y Cytundeb Tymor Hir.

Ar y cyd â Marsh, gwnaethom hefyd roi polisïau Morwrol, Terfysgaeth a Chelf Gain i ddarparwyr arbenigol.

[2]Sefydlwyd yr Yorkshire Procurement Organisation ym 1974 gan grŵp o 13 awdurdod lleol. Mae'n gweithio gyda chyflenwyr ac yn cydweithio gyda sefydliadau prynu eraill y sector cyhoeddus i gyflawni effeithlonrwydd a gwerth am arian, gan dychwelyd ei holl elw yn ôl i mewn i'r sector cyhoeddus.

# Crynodeb Hawliadau

Mae'r adroddiad hwn yn darparu crynodeb o hawliadau sydd wedi eu gwneud o dan neu yn erbyn trefniadau yswiriant allanol a mewnol y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng **01/04/25 – 31/03/26** (yn seiliedig ar ddyddiad y digwyddiad ac nid ar ddyddiad gwneud neu gyflwyno'r hawliad). Cyfanswm cost yr hawliadau yw cyfanswm y gost i'r Cyngor a'i yswiriwr yn cynnwys iawndal a chostau. Pan yn berthnasol a defnyddiol, bydd y profiad hawliadau 2025-26 hefyd yn cael ei ddadansoddi drwy'r cyd-destun tymor byr a chanolig.

Mae crynodeb o'r hawliadau sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad A o'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o bob polisi, yn ôl **pob blwyddyn ariannol** o nifer yr hawliadau am gyfnod o bum mlynedd, ers 2021-2022, sydd wedi:

- cael eu talu e.e. wedi eu setlo
- wedi eu setlo a dim iawndal h.y. wedi gwrthod
- heb eu setlo

Mae'r crynodeb hefyd yn cynnwys y swm a dalwyd o ran yr hawliadau hynny a setlwyd a'r swm sydd wedi'i gadw wrth gefn ar gyfer yr hawliadau hynny nad ydynt wedi eu setlo hyd yma.

Ni fydd yr holl hawliadau sy'n weddill, gydag arian wrth gefn yn eu herbyn, yn cael eu talu neu eu setlo yn unol â'r swm wrth gefn sydd yn eu herbyn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer hawliadau atebolrwydd lle bydd hawliadau ag arian wrth gefn sylweddol yn eu herbyn yn aml yn cael eu setlo am symiau llawer is - neu am ddim costau o gwbl mewn ambell achos.

Gall nifer yr hawliadau hefyd gynyddu dros amser, oherwydd mewn rhai achosion, mae hawliadau yn cael eu cyflwyno nifer o flynyddoedd ar ôl y digwyddiad. Er enghraifft, mae gan blentyn a anafwyd yn yr ysgol gynradd gyfnod o dair blynedd ar ôl troi yn 18 oed i gyflwyno eu hawliad. O ganlyniad, bydd nifer yr hawliadau a chyfanswm yr arian wrth gefn a'r arian a delir yn parhau i newid dros amser.

Ar y cyfan, mae proffil hawliadau yswiriant y cyngor yn hawdd ei drin ar hyn o bryd, gyda nifer o hawliadau sefydlog a chyfraddau gwrthod cryf. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn hawliadau parhaus a'r cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau yn ymwneud ag eiddo yn cynrychioli risgiau sy'n dod i'r amlwg sydd angen eu monitro yn barhaus a'u rheoli yn rhagweithiol.

# Cofnod o hawliadau a thueddiadau

## Hawliadau Atebolrwydd Cyflogwyr

Mae nifer yr hawliadau am anaf personol a gyflwynir gan ein gweithwyr yn parhau'n isel ar gyfartaledd o 1.5 y flwyddyn dros y cyfnod o bum mlynedd. Mae mwyafrif yr hawliadau a gyflwynir yn deillio o ddamwain benodol yn y gwaith.

Yn ystod 2025-26 gwnaed un hawliad newydd yn erbyn atebolrwydd cyflogwr yn erbyn y cyngor. Dywedwyd bod yr anafiadau honedig o ganlyniad i offer diffygiol y cyngor, gyda diffyg mesurau rheoli priodol ar waith i liniaru'r risgiau ar gyfer offer diffygiol o'r fath. Yn ôl cyngor gan ein hyswirwyr, mae'r atebolrwydd wedi ei dderbyn, ac mae trafodaethau ar gyfer setliad y tu allan i'r llys yn parhau.

## Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae nifer yr hawliadau atebolrwydd cyhoeddus wedi bod yn gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae cyfraddau gwrthod yn gyson uchel ac mae setliadau a delir yn amrywio ond yn parhau i fod yn gymedrol.

Yn ystod 2025-26, derbyniodd y cyngor 55 hawliad atebolrwydd cyhoeddus newydd. Roedd 34 o'r hawliadau hyn yn ymwneud â Phriffyrdd e.e. difrod i gerbydau oherwydd tyllau yn y ffordd, pobl yn baglu oherwydd arwynebau anwastad a llithrig a materion draenio.

Roedd 13 o'r hawliadau hyn yn ymwneud â difrod neu anaf o ganlyniad i faterion cynnal a chadw tai honedig e.e. dŵr yn gollwng o wresogyddion a berwyr, peipiau wedi byrstio a slabiau palmant anwastad mewn gerddi.

Mae 8 hawliad sy'n weddill yn ymwneud â difrod honedig a/neu anafiadau yn ymwneud â gweithgareddau / esgeuluster o wasanaethau eraill y cyngor megis Eiddo, Morwrol, Oedolion, Plant a Hamdden.

Mae 81% (13 o 16) o'r hawliadau sydd wedi'u hymchwilio'n llawn a'u penderfynu wedi'u gwrthod, sy'n newyddion cadarnhaol ac yn ddatblygiad ar y gyfradd gwrthod o 70% ar gyfer 2024-25.

Fodd bynnag, nid yw 71% (39 o 55) o'r hawliadau sy'n ymwneud â 2025-26 wedi'u cwblhau eto, gan fod llawer o hawliadau sy'n ymwneud â phriffyrdd yn cael eu derbyn yn ystod neu ar ôl misoedd y gaeaf h.y. mae tyllau yn y ffordd yn berygl penodol yn y gaeaf pan fydd dŵr mewn craciau bach yn y ffordd yn rhewi ac yna'n ehangu yn yr oerfel. Yna, pan fydd y tymheredd yn codi, mae'r dŵr yn anweddu, sy'n gadael tyllau yn y ffordd.

## Hawliadau Modur

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cynyddodd nifer yr hawliadau cyn sefydlogi, ac mae'r symiau a dalwyd yn aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn.

Yn 2025-26, roedd 53% (18 o 34) o'n hawliadau modurol yn fai ar y gyrrwr ei hun. Gwnaeth y damweiniau hyn arwain at ddifrod i'n cerbydau ein hunain, cerbydau trydydd parti ac mewn llawer o achosion, difrod i'r ddau barti. I liniaru'r risg o'r digwyddiadau hyn yn digwydd eto, mae ein Hadran Fflyd yn monitro gwrthdrawiadau a throseddau gyrru a wnaed mewn cerbydau'r cyngor ac yn trefnu asesiadau gyrru ar gyfer y rheiny sy'n parhau i droseddu.

## Hawliadau Eiddo

Mae nifer yr hawliadau eiddo, a'u costau, wedi bod yn hynod gyfnewidiol a'r maes hwn sy'n cynrychioli amlygiad ariannol mwyaf y cyngor.

**Storm**
Yn ystod 2024-25, bu i wyntoedd Storm Darragh fis Rhagfyr 2024, oedd yn fwy na 90 milltir yr awr, achosi difrod sylweddol i'n hystâd o fân-ddaliadau - o ganlyniad, cafwyd 29 hawliad, yn amrywio o ran gwerth, yn erbyn ein polisi eiddo, gyda nifer dal ar waith. Gwnaeth Storm Darragh hefyd achosi difrod i baneli solar yn y Caban yn Ysgol Gynradd Y Fali.

Er bod nifer yr hawliadau eiddo yn 2025-26 wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â 2024-25, yn anffodus roedd y difrod a brofwyd, yn ogystal â chyfanswm costau'r hawliadau, yn sylweddol. Ym mis Rhagfyr 2025, caewyd Canolfan Hamdden Caergybi dros dro ar ôl i ran o'r to gael ei chwythu i ffwrdd yn ystod gwyntoedd cryfion Storm Bram. Er mai dyma'r unig hawliad a wnaed yn 2025-26 yn gysylltiedig â stormydd, oherwydd ei werth sylweddol, bydd hyn, ynghyd â'n profiad o hawliadau yn 2024-25, hefyd yn dylanwadu'n negyddol ar ein premiymau wrth eu hadnewyddu ym mis Hydref 2026.



**Tannau mewn Tai**
Yn ystod 2025 - 2026, effeithiwyd ar ddau eiddo yn ein stoc tai gan dannau difrifol. Yn ffodus, ni brofwyd unrhyw anafiadau. Cafodd tenantiaid a oedd wedi'u dadleoli eu hailgartrefu ar unwaith, ac mae'r eiddo a ddifrodwyd wedi'u hadfer yn llawn, neu maent yn cael eu hadfer yn llawn ar hyn o bryd.

Yn anffodus, mae'r digwyddiadau hyn yn adlewyrchu patrwm pryderus, gan fod dau dân hefyd wedi'u cofnodi yn ein stoc tai yn ystod 2024–25, gan arwain at hawliadau sylweddol. Roedd achosion y tanau hyn yn gysylltiedig â gweithredoedd tenantiaid yn hytrach na namau trydanol neu fylchau cynnal a chadw. Gall ymddygiadau/gweithredoedd tenantiaid ddylanwadu'n sylweddol ar risgiau tân, ac felly i fynd i'r afael â hyn, yn deg, a heb roi bai ar unrhyw un, mae'r gwasanaeth tai wedi darparu cymorth drwy addysg ar ddiogelwch tân ac atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth.

Bydd yr hawliadau'n arwain at gynnydd yn ein premiymau eiddo wrth eu hadnewyddu fis Hydref 2026, yn ôl telerau'r Cytundeb Tymor Hir.

## Hawliadau Cyn 2021

Dylid nodi bod Atodiad A yn rhoi manylion hawliadau am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 at 31 Mawrth 2026. Fodd bynnag, mae dau hawliad atebolrwydd cyhoeddus (sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Cymdeithasol Plant) sy'n dyddio'n ôl i 2018 yn parhau ar agor. Mae cyfanswm y cronfeydd wrth gefn sy'n weddill wedi'u dyrannu gan ein hyswirwyr ar gyfer yr hawliadau hyn ar hyn o bryd oddeutu £204,000, gyda gwariant sy'n ymwneud â ffioedd cyfreithiol eisoes wedi'i yswirio. Mae'r honiadau hyn yn dangos y gall gymryd blynyddoedd lawer i rai hawliadau gael eu hadrodd a'u datrys yn llawn.

## Heriau a Chyfleoedd

Mae colli capasiti yswirwyr, rhyfeloedd tramor a chostau ailyswiriant[3] cynyddol i gyd yn ffactorau sydd wedi cyfrannu at farchnad yswiriant heriol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae tueddiadau yswiriant masnachol yn gwella oherwydd mwy o gystadleuaeth rhwng yswirwyr. Mae premiymau'n gostwng ar draws pob dosbarth o yswiriant ac mae yswirwyr yn fwy parod i negodi telerau ac amodau gwell, gyda phrisiau yswiriant yn ôl fel ag yr oeddynt cyn y pandemig.[4]

Er bod y farchnad yswiriant wedi gwella, yn fyd-eang, mae'r dirwedd risg yn parhau i fod yn gymhleth ac yn fwyfwy bregus. Mewn ychydig flynyddoedd, rydym wedi wynebu Covid, effeithiau chwyddiant, aflonyddwch cymdeithasol a gwrthdaro geowleidyddol yn cynnwys gwrthdaro parhaus yn Ewrop a'r Dwyrain Canol. Mae sefydliadau'n gorfod cydio mewn cyfleoedd a risgiau sy'n deillio o dechnolegau newydd, yn cynnwys Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal a chanolbwyntio ar feithrin arferion busnes cynaliadwy a'r daith i ddod yn sero net.

Mae'r cyngor yn berchen ar oddeutu 4,000 o gartrefi ledled yr ynys, ac yn eu rheoli.  Er bod y cyngor wedi cyflawni ac yn cydymffurfio â gofynion gwreiddiol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ers 2012, mae sawl hawliad yn honni bod tai mewn cyflwr gwael yn cael eu derbyn yn flynyddol. Er nad oes polisi yswiriant i dalu am iawndal am ddiffyg atgyweirio, gall yr hawliadau hyn arwain at hawliadau atebolrwydd cyhoeddus cysylltiedig. Er nad yw hawliadau am ddiffyg atgyweirio yn cael eu hadlewyrchu yn yr ystadegau a gyflwynir yn Atodiad A, mae angen adnoddau'r cyngor i ymchwilio i hawliadau, cywiro unrhyw broblemau, a thalu iawndal a chostau lle bo angen. [5]

Yn ogystal â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 newydd, sy'n adeiladu ar y SATC blaenorol, o 1 Ebrill 2026 ymlaen mae elfen newydd wedi'i hychwanegu at y Safonau. Ffocws yr elfen newydd hon yw gosod rheol glir ynghylch sut y dylai landlordiaid cymdeithasol ymateb i leithder, llwydni a pheryglon eraill yn unol â pheryglon y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS). Rhaid ymchwilio i'r peryglon hyn o fewn amserlenni penodol.

Mae diffyg cydymffurfio â SATC 2023 yn gwneud y cyngor yn agored i atebolrwydd cyhoeddus fel landlord cymdeithasol oherwydd bod y Safon bellach wedi'i chysylltu'n agos ag ymateb i beryglon, diogelwch tenantiaid, a dyletswyddau statudol. Mae'r risgiau mwyaf uniongyrchol yn codi lle mae methiannau'n arwain at beryglon y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, atgyweiriadau wedi'u gohirio, neu reoli diogelwch annigonol - a gall pob un ohonynt arwain at anaf, salwch, neu ddifrod i eiddo.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn dod yn fwyfwy amlwg ledled Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae stormydd wedi bod yn ddwys (fel y profodd ein honiadau sy'n gysylltiedig â

---

[3] Mae Ailyswiriant yn golygu mecanwaith lle mae yswirwyr yn prynu yswiriant gan yswirwyr eraill i amddiffyn eu hunain rhag colledion sylweddol neu drychinebus. Er enghraifft, gall cwmni yswiriant warantu adeilad sydd werth £100 miliwn ond cael ailyswiriant am unrhyw golled sy'n fwy na £50 miliwn, a thrwy hynny gyfyngu ei amlygiad uniongyrchol i'r £50 miliwn cyntaf.

[4] Adolygu'r Farchnad Yswiriant, Marsh, Chwefror 2026

[5] Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw safon ansawdd tai Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd y SATC gyntaf yn 2002 a'i nod yw sicrhau bod pob annedd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer anghenion trigolion presennol a thrigolion y dyfodol. Gosododd Llywodraeth Cymru darged i bob landlord cymdeithasol wella eu stoc tai i gyrraedd SATC cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf. Cadarnhaodd Deddf Tai (Cymru) 2014 y gofyniad hwn eto.

stormydd), llifogydd dro ar ôl tro, erydiad arfordirol cyflymach mewn cymunedau a thonnau gwres uwch nag erioed sydd wedi rhoi straen ar seilwaith lleol. Wrth i dymheredd byd-eang barhau i godi, disgwylir i'r digwyddiadau hyn ddigwydd yn amlach ag achosi mwy o ddifrod.

Mae'r effaith ddynol yn ddifrifol: teuluoedd wedi'u dadleoli, cartrefi wedi'u hatgyweirio neu eu gadael dro ar ôl tro, a chymunedau'n wynebu aflonyddwch parhaus. Mae awdurdodau lleol dan bwysau cynyddol i gryfhau amddiffynfeydd rhag llifogydd ac addasu gwasanaethau hanfodol.

Mae’r pwysau amgylcheddol hyn peri goblygiadau sylweddol i yswirwyr hefyd. Mae hawliadau am ddifrod stormydd yn cynyddu o ran nifer a chost. Wrth i batrymau tywydd hanesyddol ddod yn llai dibynadwy, rhaid i gwmnïau yswiriant ailasesu prisio, modelau risg, a chynaliadwyedd hirdymor mewn hinsawdd sy'n newid yn gyflym.

Er bod nifer yr hawliadau anaf personol modurol wedi gostwng i'w lefel isaf erioed[6], gan barhau â thuedd hirdymor ar i lawr, yn ôl Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)[7] mae chwyddiant hawliadau moduron yn codi'n llawer cyflymach na chwyddiant cyffredinol, ac mae hynny’n cael ei arwain yn bennaf gan gerbydau drutach, technoleg gymhleth, prinder llafur, a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig ag anafiadau.

O ystyried y cyd-destun economaidd byd-eang ehangach, sy'n gyson ansicr, sy'n arwain unwaith eto at bwysau chwyddiant, a chofnod hawliadau eiddo mwy diweddar y cyngor, mae'n sicr y bydd ein premiymau yswiriant yn codi yn y blynyddoedd i ddod.

Bydd dangos i’n hyswirwyr fod y cyngor wedi adnabod ac wedi gweithredu’r gwersi sy’n deillio o hawliadau sylweddol (e.e. tannau), a bod prosesau a rheolyddion ar waith i reoli risg, yn hanfodol i leihau cynnydd yn y premiwm yn y dyfodol.

Mae rheoli risg yn effeithiol hefyd yn lleihau colledion hunan-yswiriant y cyngor, a gall alluogi'r cyngor i ysgwyddo lefel uwch o risg trwy ormodedd a didyniadau uwch. Mae hyn, yn ei dro, yn helpu i gynnal cydbwysedd priodol rhwng y risgiau a drosglwyddir i yswirwyr a chost gyffredinol premiymau yswiriant.

---

[6] Mae data o'r Uned Adfer Iawndal yn dangos gostyngiad o 24% mewn hawliadau anaf personol Damweiniau Traffig Ffyrdd (RTA) yn Ch4 2025 i 63,833, y ffigwr chwarterol isaf i’w gofnodi hyd yma. Yn ystod 2025, gostyngodd hawliadau modur 14% i 282,428, a gostyngodd cyfanswm yr hawliadau anaf personol 12% i 413,323. O'i gymharu â 2018, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 58% mewn hawliadau modur a gostyngiad o 53% ym mhob hawliad anaf personol.

[7] Guest blog - Motor claims inflation: Causes, consequences and what comes next | ABI

# Atodiad A - Crynodeb Hawliadau

| Polisi | Blwyddyn ariannol y digwyddiad | Hawliadau a dderbyniwyd | Hawliadau wedi eu setlo - Talwyd | Hawliadau wedi eu setlo - Gwrthodwyd | Hawliadau sydd dal yn agored | Swm a dalwyd mewn perthynas â hawliadau wedi eu setlo | Swm amcangyfrifedig wedi'i gadw ar gyfer hawliadau parhaus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Atebolrwydd Cyhoeddus** | 2021/2022 | 50 | 9 | 38 | 3 | £36,441.40 | £65,972 |
| | 2022/2023 | 61 | 12 | 46 | 3 | £77,909.40 | £30,189 |
| | 2023/2024 | 60 | 17 | 41 | 2 | £36,814.65 | £38,025 |
| | 2024/2025 | 54 | 15 | 35 | 4 | £15,510.29 | £21,621 |
| | 2025/2026 | 55 | 3 | 13 | 39 | £6,476 | £89,436 |
| **Atebolrwydd Cyflogwr** | 2021/2022 | 3 | 2 | 0 | 1 | £5,480 | £25,094 |
| | 2022/2023 | 1 | 0 | 1 | 0 | £0.00 | £0.00 |
| | 2023/2024 | 1 | 0 | 1 | 0 | £0.00 | £0.00 |
| | 2024/2025 | 0 | 0 | 0 | 0 | £0.00 | £0.00 |
| | 2025/2026 | 1 | 0 | 0 | 1 | £0.00 | £15,999 |
| **Moduron** | 2021/2022 | 22 | 18 | 4 | 0 | £34,102 | £0.00 |
| | 2022/2023 | 28 | 27 | 1 | 0 | £44,640 | £0.00 |
| | 2023/2024 | 42 | 30 | 12 | 0 | £44,234 | £0.00 |
| | 2024/2025 | 32 | 24 | 7 | 1 | £25,438 | £5,600 |
| | 2025/2026 | 34 | 26 | 1 | 7 | £36,401 | £25,815 |
| **Eiddo** | 2021/2022 | 25 | 17 | 8 | 0 | £67,019 | £0.00 |
| | 2022/2023 | 9 | 6 | 3 | 0 | £44,979 | £0.00 |
| | 2023/2024 | 12 | 6 | 6 | 0 | £159,633 | £0.00 |
| | 2024/2025 | 37 | 18 | 4 | 15 | £126,606 | £472,000 |
| | 2025/2026 | 4 | 0 | 1 | 3 | £0.00 | £594,367 |
| **Arall** | 2021/2022 | 1 | 1 | 0 | 0 | £3,600 | £0.00 |
| | 2022/2023 | 1 | 0 | 1 | 0 | £0.00 | £0.00 |
| | 2023/2024 | 1 | 1 | 0 | 0 | £5,000 | £0.00 |
| | 2024/2025 | 0 | 0 | 0 | 0 | £0.00 | £0.00 |
| | 2025/2026 | 0 | 0 | 0 | 0 | £0.00 | £0.00 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 14 Mai 2026 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2026-27 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2026-27 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2026-27 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2026-27

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)** | | | | | | Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1)<br><br>Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5) |
| **Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)** | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2025-26 (3.4.8.3.1/2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2) | Log Gweithredodd<br><br>Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2027-28 (3.4.8.3.2) |
| **Llywodraethiant (3.4.8.4)** | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025-26 (3.4.8.4.4) | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)** | | Adroddiad Blynyddol 2025-26 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2027-28 (3.4.8.5.1/3/4) | |
| **Gwerth am arian (3.4.8.6)** | *Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* | *Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*<br><br>*Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | | *Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)* | |
| **Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)** | | Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2026-27 (3.4.8.7.1/2/3) |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Risg (3.4.8.8)** | | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | Adolygiad o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |
| **Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)** | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-26 (3.4.8.9.4/5/6) | | *Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2025-26 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)* | | Canlyniadau'r Fenter Dwyll Genedlaethol 2026-28 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6) |
| **Archwilio Mewnol (3.4.8.10)** | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.5/6/7/8/11/14/15) (3.4.8.6.3)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2026-27 (3.4.8.10.1/2/4/ 5)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Asesiad mewnol o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn y Sector Cyhoeddus yn y DU (3.4.8.10.1/2/8/ 11/13) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)<br><br>Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10) |
| **Archwilio Allanol (3.4.8.11)** | | Recriwtio a Chadw (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.1/2/3) | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3) | *Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1)* | Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3) | Cynllun Archwilio Blynyddol 2027 (3.4.8.11.1/3) |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4)<br><br>Cynllunio ariannol mewn gofal preswyl i oedolion (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3) | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3) | |
| **Adrodd Ariannol (3.4.8.12)** | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3) | | | |
| **Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)** | | | | Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1) | | |
| **Delio â Chwynion (3.4.8.14)** | | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2025-26 (3.4.8.14.1/2)<br><br>Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025-26 (3.4.8.14.1) | | |

| Swyddogaeth Graidd | 25 Mehefin 2026 | 16 Gorffennaf 2026 | 28 Medi 2026 | 3 Rhagfyr 2026 | 11 Chwefror 2027 | 15 Ebrill 2027 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)** | | | Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Lles) Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.15.1/2/3) | | | |
| **Asesiad Perfformiad Panel (3.4.8.16)[1]** | Adroddiad Asesiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3) | | | | | |
| **Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol (3.4.8.17) [2]** | | | | | | |
| **Eitemau sylweddol** | **5** | **8** | **9** | **8** | **7** | **7** |

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[2] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

## Hyfforddiant i'r pwyllgor

| Maes | Dyddiad a ddarparwyd | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg | Chwefror 2025 | Sesiwn briffio | Prif Swyddog Digidol | |
| Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr | Mehefin 2023<br>Awst 2023 | Sesiwn hyfforddi<br>Sesiwn hyfforddi | CIPFA<br>CIPFA | |
| Rheoli Trysorlys | Medi 2023 | Sesiwn briffio | Richard Bason, Link Group | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | Hydref 2023 | Sesiwn hyfforddi | CLILC | |
| Atal Twyll a Llygredd | Rhagfyr 2023 | Sesiwn hyfforddi | Paul Stratton, 'The Fraud Nerd' | |
| Rheoli Risg | Mawrth 2024<br>Tachwedd 2025 | Sesiwn hyfforddi<br>Sesiwn hyfforddi | CLILC<br>Zurich Resilience Solutions | |
| Datganiad o'r Cyfrifon | Hydref 2025 | Sesiwn briffio | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | e-ddysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd |

**Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor**

| Teitl | Arwynebedd | Canolig | Darparwr | Dyddiad Darparwyd |
|---|---|---|---|---|
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd | Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio. | Nodyn Briffio | CIPFA | 24/12/24 |
| Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell | Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol. | Cylchlythyr | CIPFA | 07/02/25 |
| Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol | Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio. | Canllaw poced | Archwilio Cymru | 25/02/25 |
| Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol | Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025. | Nodyn Briffio | CIPFA | 17/04/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr' | Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau. | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/05/25 |
| CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad | Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. | Cyhoeddiad | CIPFA | 20/05/25 |
| Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA | Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA). | Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol | CIPFA | 15/07/25 |
| Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru - Cwestiynau Cyffredin | Gwybodaeth am rôl Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CCGC) ac is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Cwestiynau cyffredin | CCGC | 02/12/25 |